Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 16eg Ionawr, 2018 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 RHAGFYR 2017 | | | 4 - 7 |
| 6 | CYTUNDEBAU INTERGREIDDIO O FEWN Y MAES GOFAL A IECHYD YN RHANBARTHOL | Cyng. W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 8 - 35 |
| 7 | TREFNIADAU LLYWODRAETHU ARFAETHEDIG CWMNI HAMDDEN CYNGOR GWYNEDD | Cyng. Craig ab Iago | Sioned Williams | 36 - 40 |
| 8 | LLUNIO STRATEGAETH ASEDAU NEWYDD 2019-20 I 2028-29 | Cyng. Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 41 - 44 |
| 9 | CYLLIDEB REFENIW 2017/18 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2017) | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 45 - 61 |
| 10 | RHAGLEN GYFALAF 2017/18 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2017) | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 62 - 66 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN | Cyng. Craig ab Iago | Iwan Trefor Jones | 67 - 78 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AR GYFER DATBLYGU'R ECONOMI | Cyng. Ioan Thomas | Iwan Trefor Jones | 79 - 90 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 91 - 99 |
| 14 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Peredur Jenkins | Dafydd Edwards | 100 - 106 |

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 12 RHAGFYR 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol)

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)
Eitem 7: Sioned Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) a Nia Bowden (Rheolwr Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel a Parth Menter Eryri)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. W Gareth Roberts a Cyng. Annwen Hughes, fel Aelod Lleol, ar gyfer eitem 7.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys i'w drafod

### 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu

### 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 TACHWEDD

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 21 Tachwedd 2017, fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADNODDAU DYNOL

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at y prif heriau sy'n wynebu Adnoddau Dynol. Tynnwyd sylw at ddatblygu'r Cynllun Prentisiaethau y mae'r Cyngor wedi'i adnabod fel blaenoriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, a bod y rhaglen waith o fewn y Cynllun Pobl angen ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu hyn.

Nodwyd yn ogystal ei bod yn briodol nodi ers yr adroddiad gael ei chyhoeddi fod y Cyngor wedi derbyn asesiad Iechyd Aur eto eleni. Esboniwyd fod nifer dyddiau salwch wedi codi yn ystod y flwyddyn, ond er hyn mae'r nifer o aelodau o staff sydd heb golli diwrnod o waith i salwch hefyd wedi codi yn ogystal.

Amlinellwyd fod canran o ferched sydd yn gweithio yn y Cyngor yn llawer uwch 'na dynion ar hyn o bryd mae'r canran yn 75%. Pwysleisiwyd fod y canran yn uwch mewn adrannau ble mae'r cyllidebau mwyaf. Ond er hyn mae proffil oedran y Cyngor yn uwch a bydd angen cadw golwg ar hyn. Pwysleisiwyd mai dim adroddiad blynyddol Adnoddau Dynol yw hwn ond yn hytrach adroddiad o gyflogaeth y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
-Holwyd os oes modd cael mewnbwn y Maes Plant, ac yn benodol Plant mewn Gofal wrth edrych ar Brentisiaeth i weld os oes modd i bobol ifanc mewn gofal gael mynediad i'r swyddi. Nodwyd fod trafodaeth wedi bod am hyn yn y Tîm Rheoli Adrannol ac wedi cytuno ar wneud hyn

## 7. GWELLIANAU ISADEILEDD MYNEDIAD CANOLFAN AWYROFOD ERYRI, LLANBEDR

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:
1. Cefnogi'r egwyddor fod Cyngor Gwynedd yn cymryd rôl Corff Arweiniol i'r prosiect

2. Yn amodol ar dderbyn cadarnhad o'r cyfraniadau eraill:
    i. Bod y Cabinet yn rhoi sêl bendith i benderfyniad yr adran Economi a Chymuned i ymrwymo £250,000 o'r Cronfa

Cydariannu tuag at cynllun oddeutu £25,000,000 i ddatblygu isadeiledd priodol i gefnogi datblygiad Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr.

ii. Bod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo £250,000 arall i'r cynllun ymlaen llaw o'r Cynllun Rheoli Asedau arfaethedig.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nod fod angen buddsoddiad pellach ar y lleoliad. Amcangyfrifir y gall datblygu Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer datblygu a threialu cerbydau a reolir o bell arwain bell arwain at greu 100 o swyddi. Nodwyd i alluogi datblygiad y safle mae angen buddsoddiad pellach gan gynnwys gwelliannau i'r cyfleusterau ar y maes awyr a ffordd mynediad newydd yn osgoi canol pentref Llanbedr.

Pwysleisiwyd fod y Maes Awyr yn ased sylweddol a all ddatblygu economi Meirionnydd drwy greu swyddi gwerth uchel. Mae'r safle yn ogystal yn rhan o Ardal Fenter Eryri, ac mae Cyngor wedi bod yn gweithio yn agos a'r cwmni sy'n gweithredu'r safle a Llywodraeth Cymru i'w ddatblygu. Pwysleisiwyd mai Llywodraeth Cymru sy'n berchen y safle ac maent wedi llesu'r safle i gwmni Snodonia Aerospace ar gytundeb hirdymor.

Pwysleisiwyd yn glir fod cyfraniad Gwynedd yn mynd yn gyfan gwbl ar wella mynediad i'r safle fydd yn cynnwys gwelliannau i lonydd lleol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod llawer o unigolion a mudiadau yn holi os bydd buddsoddiad i'r cwmnïau sydd wedi ei lleoli ar y safle - gan fod cwmnïau sydd yn datblygu arfau, Pwysleisiwyd eto y bydd arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r ffordd ac nid ar y lleoliad ei hun.
- Nodwyd fod Meirionydd wedi gweld gwymp yn nifer y swyddi Gwerth Uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodwyd fod angen buddsoddi mewn isadeiledd er mwyn cael swyddi gwerth uchel a galluogi pobl leoli i aros yn yr ardal. Ychwanegwyd fod 10 cwmni lleol yn defnyddio'r safle ac mae'r ffordd bresennol yn un gwael, angen buddsoddi yn y ffordd i alluogi cwmni lleol i ehangu.
- Holwyd pam mai Cyngor Gwynedd a fydd yn cymryd y rôl Arweiniol - nodwyd oherwydd mai oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr arian gan Ewrop, ac felly yn methu rhoi'r arian iddynt eu hunain ac nid oes profiad gan y Cwmni sy'n rhedeg y safle ac felly'r Cyngor yw'r unig opsiwn.
- Holwyd beth mae'r cwmni sydd a'r les yn ei wneud - nodwyd fod y cwmni yn y broses o ddatblygu cynllun busnes er mwyn gallu llogi rhannau o'r lleoliad i gwmnïau lleol, i uwchraddio safleoedd ar y safle ac maent yn gwneud cais i fod yn Ganolfan Awyrofod. Nodwyd eu bod yn anelu i gynnal y safle ac i ddyrchafu gwerth y safle a chael mwy o denantiaid.
- Trafodwyd er gyfer rheolaeth y dyfodol ac a fydd y datblygiadau yn parhau i orfod dilyn rheolau cynllunio'r Cyngor - nodwyd y bydd ac ni fydd y buddsoddiad ar y ffordd yn effeithio ar y drefn.
- Nodwyd nad oedd unrhyw sôn am Gynllun i ddatblygu arfau / drones yn yr adroddiad gan holi os oes unrhyw gynlluniau i wneud hyn. Nodwyd fod cwmni QinetiQ, sydd yn gwneud gwaith ym maes drones, yn denant ar y

safle ond nad yw’r safle yn benodol iddynt hwy.

- Nodwyd o ran y Cyngor fod gwneud gwelliannau i’r ffordd yn fargen dda - gan ei fod yn gyfraniad at greu mwy o swyddi yn lleol.
- Holwyd beth oedd barn pobl leol Llanbedr i’r cais - nodwyd eu bod wedi bod yn gofyn am ffordd osgoi'r pentref ers 1950au a'u bod yn annog i’r Cyngor symud ymlaen a’r Cais.

**8. BLAENRAGLEN CABINET**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i’r cyfarfod.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd y flaen raglen gan nodi y bydd rhai ychwanegiadau i’r Flaen raglen yn nes ar y dyddiadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.50 y.h.

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679 468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cytundeb Integreiddio o fewn y maes gofal ac iechyd yn rhanbarthol |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir i'r Aelodau gytuno'r Cytundeb Integreiddio fel sydd wedi ei osod allan yn Atodiad 1. Mae'r cytundeb yma yn darparu'r trefniadau llywodraethu i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ac i fodloni gofynion deddfwriaethol fel y nodir yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethu Gymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Gofynnir i'r Aelodau gytuno i'r aelod cabinet gymeradwyo cytundebau unigol ar gyfer prosiectau penodol oni bai bod oblygiadau penodol sydd yn addas i gael barn y Cabinet arnynt.

---

1. **Cefndir**

1.1 Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd) wedi gweithio'n anffurfiol, fel cydweithrediad, gyda'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau i'r maes gofal cymdeithasol yn y rhanbarth.

1.2 Cyfarwyddwyd y cydweithrediad yma gan femorandwm o ddealltwriaeth, ond mae cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) wedi cyflwyno'r gofyniad i ffurfioli'r trefniadau hyn, drwy gytundeb integreiddio.

1.3 Mae'r Adroddiad gerbron yn gofyn i'r aelodau ystyried y Cytundeb Integreiddio (Atodiad 1).

1.4 Mae'r cytundeb hwn yn nodi dymuniad a chytundeb y 6 awdurdod yn y Gogledd a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio ar brosiectau penodol o ran adnabod cyfleodd ar gyfer gwella gwasanaethau i bobl drwy gyflwyno gwasanaethau integredig. Byddai hyn yn gallu arwain at ddefnyddio trefniadau cyllidebau cyfun. Mae'r cytundeb yma yn unol â Rhan 9 o'r Ddeddf sy'n rhoi arweiniad ar drefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau a'r Bwrdd Iechyd.

1.5 Ers 2014 mae'r 6 Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi cydweithio gan ddefnyddio fframwaith y Cydweithrediad (memorandwm o ddealltwriaeth) i gytuno'n strategol ar ddatblygiadau gwasanaeth gan gynnwys y defnydd o'r Gronfa Gofal Integredig.

1.6 Er mwyn sicrhau llywodraethu cywir ac yn unol â'r dyletswyddau a osodir yn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer a wnaed o dan Ran 2 adran 9 (1) (Swyddogaethau Cyffredinol) y Ddeddf, mae angen ffurfioli'r trefniadau.

1.7 Fel y bydd aelodau'n ymwybodol, rhan o'r trefniadau ffurfiol oedd creu Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (weithiau yn cael ei gyfeirio ato fel Bwrdd Rhan 9). Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd i'w weld fel Anecs C, Atodiad 1. Mae'r Bwrdd wedi bod yn weithredol ers 2015, ac yn goruchwylio darnau penodol o waith rhanbarthol fel sydd wedi ei nodi yn y Ddeddf.

1.8 Mae rhai gweithgareddau penodol neu faes wedi eu nodi yn rhan 9 o'r Ddeddf fel meysydd y dylid eu hystyried yn addas i edrych arnynt o ran opsiynau integreiddio. Mae cyfrifoldeb yn ogystal i'r partïon i adnabod gwasanaethau eraill a allai fod yn addas hefyd ar gyfer cyflenwi swyddogaethau integreiddio, cydweithredol neu gyfunol. Y bwriad ydi y dylai'r gwasanaethau sydd yn cael eu cynnig ymlaen fel opsiynau fodloni'r 5 egwyddor (tudalen 3, Atodiad 1) a ddatblygwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

1.9 Mae 2 faes wedi eu nodi o fewn y Ddeddf a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Partïon ymuno a phartneriaeth ffurfiol (gydag un neu ragor o drefniadau partneriaeth ar waith) gyda chomisiynydd arweiniol a rheolwr cronfa gyfunol, sef:

- Swyddogaethau Llety Cartrefi Gofal
- Swyddogaethau'r Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd (sef IFSS)

Nid yw'r Ddeddf yn nodi bod angen i'r partneriaethau yma fod yn rhanbarthol, maent yn bartneriaeth ar lefel lleol gan ein bod o'r farn mai hyn sy'n rhoi y gorau i bobl Gwynedd.

1.10 Mae trafodaethau yn digwydd a'r lefel cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru o ran y maes llety cartrefi gofal o ran y gofyn i greu cronfa gyfun ar gyfer llety cartrefi gofal.

1.11 Mae'r Cyngor yn y broses o dreialu'r defnydd o gronfa gyfun gyda'r Bwrdd Iechyd a'r lefel lleol o fewn y maes oedolion, fyddai'n cynnwys cyllidebau ar gyfer cartrefi gofal. Mae hyn yn dilyn yn rhesymegol o'r gwaith sydd wedi digwydd gyda chreu timau integredig (gwaith Alltwen). Bydd y dysgu o'r gwaith hyn yng Ngwynedd yn cael ei rannu yn rhanbarthol.

1.12 O ran y swyddogaethau'r Gwasanaeth Integredig Cefnogi Teuluoedd (IFSS) mae trefniadau eisoes yn eu lle gan Wynedd gyda'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Ynys Môn

o ran darparu gwasanaeth integredig sydd yn cynnwys cronfa gyfunol. Cyngor Ynys Môn yw'r awdurdod arweiniol gyda'r gwasanaeth yma.

**2. Y Cytundeb Integreiddio**

2.1 Bwriad felly'r Cytundeb Integreiddio yw gosod sylfaen ffurfiol i'r rhanbarth fel gallwn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol a chynaliadwy i bobl Gogledd Cymru.

2.2 Mae'r cytundeb yma yn cydnabod y bydd pob sefydliad yn cadw cyfrifoldeb statudol dros eu swyddogaethau yr ymgymerir â hwy dan unrhyw drefniadau cyfun ac o'r herwydd bod cytundeb partneriaeth y gronfa gyfun neu gytundeb arall o'r fath a ddatblygir yn ddogfen bwysig a fydd yn ymdrin ag atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol er mwyn bodloni'r holl Bartïon.

2.3 Mae cytundebau unigol ar gyfer meysydd penodol e.e. ICF (Cronfa Gofal Integredig) yn eu lle, ac wedi eu cymeradwyo gennyf fel yr aelod cabinet. Y bwriad yw awdurdodi unrhyw gytundeb unigol fel penderfyniad aelod cabinet oni bai bod y cytundeb penodol gydag oblygiadau y dylid eu hystyried gan y Cabinet.

**3. Ystyriaethau**

3.1 Mae'r Cytundeb Integreiddio (Atodiad 1) yn sylfaen ffurfioli'r trefniadau cydweithio yn rhanbarthol, a rhan o hyn yw'r ystyriaeth o ddatblygu cyllidebau cyfun. Bydd yr aelodau yn amlwg yn croesawu unrhyw weithgaredd rhanbarthol sydd yn digwydd sydd yn gwella gwasanaethau i bobl Gwynedd.

3.2 Mae rhannau 1.9 i 1.11 uchod yn egluro'r datblygiadau lleol y mae Cyngor Gwynedd yn rhan ohonynt sydd yn ymwneud â chronfeydd cyfun, ac ar hyn o bryd nid yw'r Ddeddf yn mynnu sefydlu cyllidebau cyfunol ar sail ranbarthol. Serch hyn mae trafodaethau yn digwydd yn genedlaethol ac mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn awgrymu eu bod yn awyddus i weld hyn yn digwydd. Nid yw'n glir eto beth fyddai'r budd i bobl Gwynedd o fod yn creu cyllidebau cyfunol rhanbarthol.

3.3 Y cwestiwn felly yw, a fyddai cytuno i'r Cytundeb Integreiddio gerbron yn ymrwymo'r Cyngor i sefydlu cronfeydd cyfun rhanbarthol? Nid dyma fwriad y cytundeb yma, ac mae'r cytundeb yn nodi yn glir:

- Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ymgymryd â gwerthusiad manwl wedi'i brofi o opsiynau ynghylch y ffurf mwyaf priodol o integreiddio gwasanaethau yng nghyswllt y Prosiectau yn Anecs A sydd wedi'u hadnabod fel hynny.
- Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ymgymryd ag ymarferiad ymgynghori ar y cyd (neu gyda sawl parti) yn unol â Rhan 9 y Ddeddf, gyda'r bobl hynny yr ymddengys y cânt eu heffeithio gan y Prosiectau wrth i bob Prosiect gychwyn.

- Bydd y Partïon yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn gyda'r bwriad llwyr o anrhydeddu eu rhwymedigaethau cyfreithiol yn amodol bob amser ar rwymedigaeth bob Parti i weithredu er budd gorau eu hawdurdod cartref ac yn unol â'u dyletswyddau ymddiriedol.

**4. RHESYMEG DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1 Er mwyn cydymffurfio a gofynion Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran yr angen i gydweithio.

4.2 Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle mae'n hanfodol bod cytundeb integreiddio yn ei le fel bod holl bartïon yn glir o'r gofynion.

**5. DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

5.1 Hirdymor - Nod yr integreiddio yw gweld cynaladwyedd y sector gofal o ystyried y galw cynyddol. Mae'n cynnig cyfle i ddatblygu'r gwasanaethau a gwella ansawdd.

5.2 Atal - Mae hyn wrth wraidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rhan sylfaenol o'r rhaglen integreiddio.

5.3 Integreiddio - Mae pwrpas yr adroddiad yn seiliedig ar Integreiddio'r ddarpariaeth ar draws y Rhanbarth.

5.4 Cydweithio - Mae'r Cytundeb yn rhoi'r cyfle i'r Gwasanaethu Gofal Cymdeithasol gydweithio ymhellach wrth sicrhau bod llywodraethu cryf ar waith.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Fel y nodir yn yr adroddiad, mae cyfrifoldeb statudol bellach o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau fod cytundeb cydweithio ffurfiol yn ei le rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Cytundeb Integreiddio yn cyfarch y gofyn yma. Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi bod yn cynghori ar gynnwys y Cytundeb, a bydd angen sicrhau mewnbwn cyfreithiol ar unrhyw gytundebau unigol pellach. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae sefydlu Cytundeb Integredig yn ofyn statudol. Rwyf yn fodlon fod Cyngor Gwynedd wedi cael mewnbwn i gynnwys y cytundeb drafft yma cyn iddo ddod gerbron y Cabinet.

O safbwynt ariannol, mae risgiau amlwg gyda sefydlu cyllidebau cyfun (yn bennaf oll yn deillio o golled rheolaeth leol), ond rwyf yn fodlon fod y cytundeb ddrafft yn arddangos ymdrech ar ran yr holl bartneriaid i sicrhau fod camau o'r fath dim ond yn digwydd pan maent er lles pob partner a'u trigolion, ac mae meini prawf wedi cael eu gosod. Rwyf felly'n cefnogi bwriad y cytundeb yma i droedio yn ofalus cyn ymrwymo i unrhyw

drefniadau cyllidebau cyfun pellach y tu hwnt i'r datblygiadau lleol sydd eisoes ar y gweill (fel disgrifir yn rhannau 1.9 i 1.11 yr adroddiad).

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1**
**Cytundeb**
**Integreiddio**

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

**2017**

# CYTUNDEB INTEGREIDDIO

**a wneir dan Ran 9**

**DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

**rhwng**

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**CYNGOR SIR DDINBYCH**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**CYNGOR GWYNEDD**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

Fersiwn 1.0

**TUDALEN WAG**

## CYNNWYS

### CYMAL


1. Cefndir ....................................................................................................1
2. Amcanion allweddol y prosiectau .....................................................................1
3. Egwyddorion cydweithio ....................................................................................3
4. Trefn Lywodraethol y prosiectau .......................................................................4
5. Rolau a chyfrifoldebau .......................................................................................6
6. Dwysáu ................................................................................................................8
7. Eiddo deallusol ....................................................................................................9
8. Tymor a therfynu .................................................................................................9
9. Amrywio ..............................................................................................................9
10. Ffioedd a rhwymedigaethau ...............................................................................9
11. Statws ...............................................................................................................10
12. Cyfraith lywodraethu ac awdurdodaeth ..........................................................10

Llofnodion..............................................................................................11


### ANECS


ANECS A. PROSIECTAU ..............................................................................................13

ANECS B. TREFNIADAU PRESENNOL A.33 DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006 .........................................................................................15

ANECS C TROSOLWG O LYWODREAETHU CYLLIDEBAU CYFUN .................................16

Dyddiad y **CYTUNDEB HWN yw** 2017

## Y PARTÏON

(1) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (**BIPBC**)

(2) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (**CBSC**)

(3) Cyngor Sir Ddinbych (**CSDd**)

(4) Cyngor Sir y Fflint (**CSFf**)

(5) Cyngor Gwynedd (**CG**)

(6) Cyngor Sir Ynys Môn (**CSYM)**

(7) Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (**CBSW**)

Y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y 'Partïon' neu yn unigol 'Parti'

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Partïon wedi cytuno i gydweithio ar y prosiectau sydd wedi'u manylu yn Anecs A (**Prosiectau**).

1.2 Dymuna'r Partïon gofnodi ar ba sail y byddant yn cydweithio ar y Prosiectau. Mae'r Cytundeb hwn yn nodi:

(a) amcanion allweddol y Prosiectau;

(b) egwyddorion cydweithio;

(c) y strwythurau llywodraethu y bydd y Partïon yn rhoi yn eu lle; a

(d) y rolau a chyfrifoldebau y bydd gan bob un o'r Partïon yn ystod y Prosiectau.

## 2. AMCANION ALLWEDDOL Y PROSIECTAU

2.1 Bydd y Partïon yn ymgymryd â'r Prosiectau i gyflawni'r amcanion allweddol sydd wedi'u nodi yn Anecs A (**Amcanion Allweddol**); yn benodol, adnabod cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau integredig a allai fod yn addas hefyd ar gyfer trefniant cronfa gyfun ffurfiol.

2.2 Mae'r Partïon yn cytuno, yn amodol ar ymrwymo i gytundeb cronfa gyfun, bod y trefniadau fel a ganlyn:

2.2.1 Yn debygol o arwain at welliant yn y ffordd y caiff y swyddogaethau hynny eu gweithredu (gan ystyried agweddau gwerth am arian); a

2.2.2 Bod y partneriaid wedi ymgynghori ar y cyd â'r bobl hynny allai gael eu heffeithio gan y trefniadau; a

2.2.3 Bod y trefniadau partneriaeth yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi mewn unrhyw Gynllun Gweithredu Blynyddol ac unrhyw Gynllun Gwella Iechyd sydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol y bydd y trefniadau yn weithredol yn ei ardal.

2.3 Y Prosiectau y bydd gofyn i'r Partïon gytuno i bartneriaeth ffurfiol ar eu cyfer (gydag un trefniant partneriaeth neu fwy yn ei le) gyda chomisiynydd arweiniol a rheolwr cronfa gyfun yw (1) Swyddogaethau Llety Cartrefi Gofal a (2) Swyddogaethau Cefnogi Teuluoedd.

2.4 Mae'r Partïon yn cydnabod bod y rhestr o Brosiectau yn Anecs A fel y cyfarwyddir gan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') ond bod rhwymedigaeth ar y Partïon i adnabod gwasanaethau eraill a allai fod yn addas ar gyfer darparu swyddogaethau cyfun neu fel arall, a allai fodloni'r Pum Egwyddor sydd wedi'u datblygu gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (y 'Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol').

2.5 Mae'r Partïon yn cydnabod y gall fod amgylchiadau ble byddai newid sylweddol yn briodol mewn rhai ardaloedd, megis cyfraniadau at gronfa 'Arweiniol' tan bod yr amser yn iawn ar gyfer cronfa gyfun llwyr.

2.6 Mae'r Partïon yn cydnabod bod trefniadau ffurfiol a rennir yn eu lle ar hyn o bryd ac mae'r cyfraniadau sydd eisoes wedi'u gwneud (ariannol ac fel arall) wedi'u manylu yn Anecs B.

2.7 Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ymgymryd â gwerthusiad manwl wedi'i brofi o opsiynau ynghylch y ffurf mwyaf priodol o integreiddio gwasanaethau yng nghyswllt y Prosiectau yn Anecs A sydd wedi'u hadnabod fel hynny.

2.8 Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ymgymryd ag ymarferiad ymgynghori ar y cyd (neu gyda sawl parti) yn unol â Rhan 9 y Ddeddf, gyda'r bobl hynny yr ymddengys y cânt eu heffeithio gan y Prosiectau wrth i bob Prosiect gychwyn.

2.9 Mae'r Partïon yn cydnabod bod y rhaglen o Brosiectau a'r gwasanaethau integreiddio yn gyson ag amcanion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac amcanion Partïon y Cytundeb hwn.

2.10 Mae'r Partïon yn cydnabod y bydd pob un yn cadw cyfrifoldeb statudol dros eu swyddogaethau yr ymgymerir â hwy dan unrhyw drefniadau cyfun ac o'r herwydd bod cytundeb partneriaeth y gronfa gyfun neu gytundeb arall o'r fath a ddatblygir yn

ddogfen bwysig a fydd yn ymdrin ag atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a rheolaeth ariannol er mwyn bodloni'r holl Bartïon.

2.11 Mewn amser, bydd cyfeiriad yr integreiddio yn cael ei ddylanwadu yn sgil datblygu Cynlluniau Ardal ar y Cyd y mae gofyn eu datblygu dan y Ddeddf gyda chyfeiriad yr integreiddio yn adlewyrchu hylifedd y wybodaeth y bydd y Partïon yn ei chasglu.

## 3. EGWYDDORION CYDWEITHIO

3.1 Mae'r Partïon yn cadarnhau'r pum egwyddor fel a ddatblygwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar 10 Tachwedd 2016 ar gyfer cyflawni iechyd a llesiant gwell a chynaliadwy i bawb yng ngogledd Cymru. Golyga hyn:

1) Newid y system gyfan ac ailfuddsoddi adnoddau mewn model ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant da ac yn tynnu'n effeithiol ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau

2) Darparu gofal mewn ffyrdd cysylltiedig sydd wedi'u canoli o amgylch anghenion, dewisiadau ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)

3) Bod pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio'u hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, wedi'u cefnogi gan amrediad o opsiynau o ansawdd uchel yn seiliedig yn y gymuned

4) Gwreiddio cyd-gynhyrchu mewn gwneud penderfyniadau fel bod dinasyddion a'u cymunedau yn siapio gwasanaethau

5) Adnabod yr amrediad eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant a phwysigrwydd y cysylltiadau i'r ardaloedd hyn (yn cynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)

3.2 Er mwyn tanategu'r egwyddorion hyn a chyflawni'r Amcanion Allweddol, mae'r Partïon yn cytuno i fabwysiadu'r ymddygiadau allweddol pwysig a ganlyn:

(a) cydweithio a chydweithredu. Sefydlu a glynu wrth y strwythur llywodraethu sydd wedi'i osod yn y Cytundeb hwn i sicrhau y caiff gweithgareddau eu cyflawni a chamau eu cymryd fel sydd angen;

(b) bod yn atebol. Ymgymryd â, rheoli a bod yn atebol i'n gilydd am berfformiad y rolau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb hwn;

(c) bod yn agored. Cyfathrebu'n agored ynghylch pryderon, materion neu gyfleoedd mawr sy'n ymwneud â'r Prosiectau;

(d) dysgu, datblygu a cheisio cyflawni potensial llawn. Rhannu gwybodaeth, profiad, deunyddiau a sgiliau i ddysgu oddi wrth ein gilydd a datblygu

arferion gweithio effeithiol, gweithio'n gydweithredol i adnabod datrysiadau, dileu dyblygu ymdrechion, lliniaru risg a lleihau costau;

(e) dysgu gwersi. Ymgymryd ag ymarferion gwersi a ddysgwyd ar ddiwedd pob Prosiect, adrodd ar y darganfyddiadau i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn y Prosiect nesaf.

(f) mabwysiadu agwedd gadarnhaol. Ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol, rhagweithiol;

(g) glynu wrth ofynion statudol ac ymarfer gorau. Cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn Rhan 9 y Ddeddf sydd wedi'i mandadu ar y Partïon ac unrhyw ddeddfau a safonau perthnasol eraill yn cynnwys rheolau caffael yr UE a/neu rai domestig, deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth. Yn benodol, mae'r Partïon yn cytuno i gydymffurfio â gofynion unrhyw rwymedigaethau Rhannu Gwybodaeth y mae'r Partïon wedi cytuno iddynt yn unol â Fframwaith Rhannu Gwybodaeth WASPI ac fel sydd wedi'i nodi yn Rheoliadau Cytundeb Partneriaeth (Cymru) 2015; ac yn unol â nodiadau canllaw ac ymarfer Llywodraeth Cymru yng nghyswllt polisi Caffael a Chomisiynu Llywodraeth Cymru, wrth gomisiynu neu gaffael gwasanaethau i gefnogi darparu unrhyw wasanaethau integredig.

(h) gweithredu'n amserol. Cydnabod natur a phwysigrwydd amser i'r Prosiectau ac ymateb yn unol â hynny i geisiadau am gefnogaeth;

(i) gweithio gyda rhanddeiliaid a chyd-gynhyrchwyr; yn benodol defnyddwyr gwasanaeth a staff.

(j) lleoli adnoddau priodol. Sicrhau bod adnoddau digonol ac wedi'u cymhwyso'n briodol ar gael ac wedi'u hawdurdodi i gyflawni'r cyfrifoldebau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb hwn; a

(k) gweithredu'n ddidwyll i gefnogi cyflawni'r Amcanion Allweddol a chydymffurfio â'r Pum Egwyddor sydd wedi'u nodi yng nghymal 3.1

## 4. TREFN LYWODRAETHOL Y PROSIECTAU

### 4.1 Trosolwg

Mae'r strwythur llywodraethu a ddiffinnir isod yn rhoi strwythur ar gyfer datblygu'r Prosiectau.

### 4.2 Egwyddorion arweiniol

Cytunir ar yr egwyddorion arweiniol a ganlyn. Bydd trefn lywodraethol y Prosiectau:

(a) yn darparu trosolwg a chyfeiriad strategol;

(b) yn seiliedig ar rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ar lefel sefydliad, grŵp a, ble bo angen, ar lefel unigol;

(c) yn alinio awdurdod i wneud penderfyniadau gyda pha mor hanfodol yw'r penderfyniadau sydd eu hangen;

(d) wedi'i alinio ag ystod y Prosiect a phob cam o'r Prosiect, (ac felly mae'n bosib y bydd angen newidiadau dros amser);

(e) yn dylanwadu ar ryngwynebau sefydliadol, grŵp a defnyddwyr presennol;

(f) yn gwneud penderfyniadau'n gydlynol, yn amserol ac yn effeithlon; ac

(g) yn cyd-fynd â'r amcanion allweddol.

4.3 **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd)**

(a) Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu dan a.168 y Ddeddf ac mae'n darparu trosolwg a chyfeiriad strategol cyffredinol i'r Prosiectau ac yn chwarae rôl hanfodol yng nghyfeiriad a throsolwg unrhyw drefniadau partneriaeth a ddatblygir, ynghyd â sicrhau bod y drefn lywodraethol a'r atebolrwydd yn eu lle yn ddigonol. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys yr aelodau sydd wedi'u rhestru yn Anecs C.

(b) Rheolir y Bwrdd yn unol â'r cylch gorchwyl a welir yn Anecs C. Mae gofyn i'r Bwrdd adrodd i Lywodraeth Cymru ar gynnydd yn y meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yn Rhan 9 y Ddeddf.

(c) Mae'r Partïon yn cytuno bod y Bwrdd yn ganolog i lwyddiant ac effeithlonrwydd unrhyw wasanaethau integredig a ddatblygir, fel sydd wedi'i nodi yn y siart trosolwg o drefn lywodraethol yn Anecs C.

(d) Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo unrhyw gytundebau ysgrifenedig sy'n gwneud gwasanaethau integredig yn weithredol ac unrhyw ddirprwyo swyddogaethau sydd ei angen, cyn i gytundebau ysgrifenedig o'r fath gael eu cyflwyno i Bartïon y Cytundeb hwn er cymeradwyaeth, mabwysiadu'n ffurfiol a dirprwyo pwerau i Awdurdod Lletya neu Arweiniol sy'n derbyn y cyfrifoldebau.

4.4 **Tîm prosiect rhanbarthol y cyllidebau cyfun**

(a) Bydd tîm prosiect rhanbarthol y cyllidebau cyfun yn darparu rheolaeth strategol ar lefel Prosiect a ffrwd gwaith. Bydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bod yr Amcanion Allweddol yn cael eu bodloni a bod y Prosiectau'n datblygu o fewn y ffiniau sydd wedi'u gosod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

(b) Mae'r tîm hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Partïon. Bydd gan y tîm gyfrifoldeb am greu a gweithredu cynllun y prosiect a'r hyn sydd angen ei gyflawni, ac felly dylai dynnu adnoddau technegol, masnachol, ariannol,

cyfreithiol a chyfathrebu, fel sy'n briodol, i mewn i'r tîm hwn.  Bydd y tîm yn cyfarfod yn fisol.

(c) Dylai Partïon ystyried sut orau i ddefnyddio unrhyw ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddiogelu'r adnoddau priodol i gefnogi'r rhanbarth wrth ddarparu'r Prosiectau sydd wedi'u hadnabod.

### 4.5 Adrodd

Byddir yn adrodd am brosiectau ar bedair lefel:

(a) **Tîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun:** Gwneir cofnodion a nodyn o'r gweithredoedd ar gyfer pob cyfarfod Tîm.  Bydd unrhyw anghenion adrodd ychwanegol ar ddisgresiwn yr Tîm.

(b) **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:** Bydd yr adrodd yn digwydd yn chwarterol o'r tîm sydd wedi'i nodi yng nghymal 4.4 uchod, i'r Bwrdd hwn. Bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiadau ar gynnydd; materion sy'n cael eu rheoli; materion y mae angen help arnynt (hynny yw, eu dwysáu i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol) a'r cynnydd sydd wedi'i gynllunio am y cyfnod nesaf.

(c) **Sefydliadol:** Bydd aelodau Tîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun yn gyfrifol am ddrafftio adroddiadau i'w sefydliad nawdd neu gartref priodol fel sydd angen er mwyn adolygu neu gymeradwyo gwasanaethau integredig, yn unol â'u prosesau mewnol eu hunain.  Bydd adroddiadau o'r fath fel arfer ar ffurf safonol gyda'r cyfathrebu wedi'i gytuno gan y Tîm Prosiect Cyllidebau Cyfun.

(d) **Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol:** bydd adrodd i'r Bwrdd hwn (y mae ei aelodaeth yn cynnwys Prif Weithredwyr/Arweinwyr traws sector) yn digwydd yn ôl y gofyn gan Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru neu os yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried hynny'n briodol.

## 5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

5.1 Bydd y Partïon sydd wedi'u hadnabod isod yn ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau a ganlyn er mwyn arwain a chefnogi cynnydd, gydag awdurdodau/swyddogion unigol yn gweithio gyda'r tîm craidd hwn er mwyn cyrraedd y pwynt o gwblhau'r prosiect:

| **Gweithgaredd** | **Partïon Cyfrifol Arweiniol** | **Sicrhawyd gan** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Rheolaeth Prosiect Gwasanaethau Integredig (rhanbarthol)<br><br>Prosiectau Lleol | NW SCW-BSC (Cydweithredfa Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru)<br>Tîm Cydweithio Rhanbarthol | Tîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun.<br><br>Rheolwyr Prosiect Lleol yn ôl yr achos |
| Paramedrau Ariannol/Cyllidebau Cyfun a chyngor cysylltiedig | Swyddogion a.151 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych a Phrif Swyddog Ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Unrhyw Barti yr effeithir arnynt gan unrhyw brosiectau Integreiddio. |
| Cefnogaeth Gaffael | Uned Gaffael Leol | Unrhyw Barti yr effeithir arnynt gan y prosiectau Integreiddio. |
| Cyfathrebu | Cyngor Sir Ddinbych (BJE) | Tîm Cyfathrebu y Partïon yr effeithir arnynt |
| Cefnogaeth Gyfreithiol | Cyngor Sir Ddinbych | Tîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun. |
| Perthnasau AD | Arbenigwr AD Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Tîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun ac Unrhyw Barti yr effeithir arnynt gan y cynigion AD. |
| Ymgynghori ac Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth | Cynrychiolwyr enwebedig a ddewisir o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth, Gofalwr, trydydd sector a chynrychiolwyr panel dinasyddion. | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |

5.2 Er dibenion y tabl uchod:

(a) **Arweiniol**: y parti sydd â phrif gyfrifoldeb am ymgymryd â'r dasg benodol dan sylw, gyda chymeradwyaeth gan Dîm Prosiect Rhanbarthol y Cyllidebau Cyfun. Rhaid i'r corff Arweiniol weithredu'n unol â'r Amcanion a'r Egwyddorion sydd wedi'u nodi yng nghymal 3.1 bob amser, ac ymgynghori ag unrhyw Awdurdod Arweiniol yr effeithir arnynt ac y cytunir arnynt ymlaen llaw, os ydynt wedi'u hadnabod fel bod ganddynt rôl i Sicrhau'r gweithgaredd perthnasol;

(b) **Sicrhau**: y parti a fydd yn cyfeirio at y corff Arweiniol ar dasg benodol, ond fydd â chyfle i adolygu a rhoi mewnbwn i'r corff Arweiniol cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol ar unrhyw weithgaredd. Rhaid i'r holl sicrwydd gael ei roi yn amserol. Rhaid i unrhyw eithriad a godir fod yn gyfyngedig i godi materion sy'n ymwneud ag anghenion penodol nad ydynt wedi cael sylw digonol gan y corff Arweiniol a/neu bryderon ynghylch cydymffurfio â'r Amcanion Allweddol a'r Egwyddorion fel sydd wedi'u nodi yng nghymal 3.1

5.3 Unwaith y bydd y model integreiddio ar gyfer Prosiect penodol wedi'i gytuno, bydd y parti sydd â'r rôl arweiniol ar unrhyw agwedd ar Brosiect penodol yn datblygu cynllun darparu ar gyfer y rhan honno o'r Prosiect a fydd yn adnabod yr isod:

(a) y prif gerrig milltir ar gyfer cyflawni'r Amcanion Allweddol;

(b) pa weithwyr (ac eithrio gweithwyr sydd wedi'u hadnabod yn y Cytundeb hwn) fydd angen i weithio ar y Prosiect;

(c) p'un a fydd angen i staff gael eu secondio o un parti i un arall;

(d) pa staff fydd angen mynediad i eiddo Parti arall;

(e) y gweithgareddau AD sydd eu hangen i gyfathrebu negeseuon allweddol i staff yr effeithir arnynt

Bydd rhaid i bob cynllun cyflawni gael ei gymeradwyo gan y Partïon a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn cael eu gweithredu.

## 6. DWYSÁU

6.1 Os oes gan unrhyw Barti unrhyw faterion, pryderon neu gwynion am y Prosiect neu am unrhyw fater yn y Cytundeb hwn, yna bydd y Parti hwnnw yn rhoi gwybod i'r Partïon eraill ac yna'n ceisio datrys y mater drwy broses o ymgynghori. Os na ellir datrys y mater o fewn cyfnod rhesymol o amser, bydd y mater yn cael ei ddwysáu i'r Tîm Cyllidebau Cyfun Rhanbarthol, a fydd yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol i'w cymryd. Os na all y Tîm ddatrys y mater o fewn 60 diwrnod calendr, gellir dwysáu'r mater i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w ddatrys.

6.2 Os yw unrhyw Barti yn derbyn unrhyw ymholiad, cwyn, hawliad neu fygythiad ffurfiol o gamau gan drydydd parti (yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hawliadau a wneir gan gyflenwr neu geisiadau am wybodaeth a wneir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000) yng nghyswllt Prosiect, caiff y mater ei gyfeirio'n brydlon at y Rheolwr Prosiect Gwasanaethau Integredig er mwyn gallu cydlynu ymgynghori cyn y cyhoeddir unrhyw ymateb.

**7. EIDDO DEALLUSOL**

7.1 Bwriad y Partïon yw [er gwaethaf unrhyw secondiad] i unrhyw hawliau eiddo deallusol a grëir yn ystod y Prosiect gael eu breinio i'r parti yr oedd ei gyflogai wedi'u creu (neu yn achos unrhyw hawliau eiddo deallusol a grëir ar y cyd gan weithwyr yr holl bartïon, i'r parti sy'n barti arweiniol a nodir yng nghymal 4 uchod ar gyfer rhan y prosiect y mae'r hawliau eiddo deallusol yn ymwneud â hi).

7.2 Os bydd unrhyw hawliau eiddo deallusol yn cael eu breinio i unrhyw Barti yn unol â'r bwriad sydd wedi'i nodi yng nghymal 7.1 uchod, bydd y parti hwnnw yn rhoddi trwydded di-alw yn ôl i'r partïon eraill ddefnyddio'r eiddo deallusol hwnnw er dibenion y Prosiect.

**8. TYMOR A THERFYNU**

8.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar ddyddiad llofnod yr holl bartïon, a bydd yn dod i ben ar ddyddiad i'w gytuno gan y Partïon.

8.2 Gall unrhyw barti derfynu'r Cytundeb hwn drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r holl Bartïon o ddim llai na chwe mis o rybudd. Bydd terfynu unrhyw drefniant a ddatblygir fel y cynigir yn Anecs A yn digwydd yn unol â thelerau'r cytundeb hwnnw y cytunir arnynt rhwng dau neu fwy o Bartïon ar y pryd.

8.3 Bydd rhybudd o'r fath i derfynu yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**9. AMRYWIO**

Dim ond pan ceir cytundeb ysgrifenedig gan yr holl Bartïon y gellir amrywio'r Cytundeb hwn, yn cynnwys yr Anecsau.

**10. FFIOEDD A RHWYMEDIGAETHAU**

10.1 Ac eithrio fel y darperir fel arall, bydd pob un o'r Partïon yn goddef eu costau a'u treuliau eu hunain a gyfyd wrth gydymffurfio â'u rhwymedigaethau dan y Cytundeb hwn.

10.2 Bydd yr holl Bartïon yn parhau'n atebol am unrhyw golledion neu atebolrwydd a gyfyd yn sgil eu camau eu hunain neu gamau eu gweithwyr ac nid yw'r un parti yn bwriadu i'r partïon eraill fod yn atebol am unrhyw golled y mae'n ei dioddef o ganlyniad i'r Cytundeb hwn.

10.3 Bydd yr holl Bartïon yn parhau'n atebol am unrhyw hawliadau neu heriau a wneir yn uniongyrchol yn eu herbyn nhw ac ni fydd unrhyw barti cyfrifol arweiniol yn atebol am unrhyw golledion. Mae pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau unrhyw brosiect y maent yn ymrwymo iddo, yn unol â'u rheolau gwneud penderfyniadau, trefn lywodraethol a goruchwylio eu hunain.

**11. STATWS**

11.1 Bwriedir i'r Cytundeb hwn fod yn rhwymol yn gyfreithiol, a bydd unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu hawliau cyfreithiol a allai godi rhwng y partïon o'r Cytundeb hwn yn codi o'r integreiddio y bydd y Partïon yn symud ymlaen â hwy yn unol ag ysbryd a bwriad Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, unrhyw gytundebau a.33 Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu unrhyw wasanaethau cydweithredol neu integredig eraill a ddatblygir.

11.2 Bydd y Partïon yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn gyda'r bwriad llwyr o anrhydeddu eu rhwymedigaethau cyfreithiol yn amodol bob amser ar rwymedigaeth bob Parti i weithredu er budd gorau eu hawdurdod cartref ac yn unol â'u dyletswyddau ymddiriedol.

11.3 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn bwriadu, neu'n cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n, sefydlu unrhyw bartneriaeth dan Ddeddf Partneriaeth 1890 neu gyd-fenter masnachol rhwng y Partïon, yn cynnwys Partïon eraill fe asiant Partïon eraill, nac yn awdurdodi'r un Parti i wneud neu ymrwymo i unrhyw beth ar gyfer neu ar ran y Partïon eraill.

**12. CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH**

Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'i ddehongli yn unol â hynny ac, heb effeithio ar y weithdrefn ddwysáu a nodir yng nghymal 5, mae pob Parti yn cytuno i ymostwng i awdurdodaeth gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.6

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

Fersiwn 1.0

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ……………………………… |

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Sir Ddinbych

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Sir y Fflint

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

Llofnodwyd dros ac ar ran:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| | |
|---|---|
| Llofnod: | ........................................... |
| Enw: | ........................................... |
| Swydd: | ........................................... |
| Dyddiad: | ........................................... |

**Anecs A Y Prosiectau**

| **Prosiect** | **Amcanion Allweddol a Dyddiadau *** | **Cronfa Gyfun?** | **Partïon** |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig | Erbyn 6 Ebrill 2018 | Ydy | I'w gytuno. |
| Comisiynu Llety Cartrefi Gofal (cartrefi preswyl a nyrsio) | Erbyn 6 Ebrill 2018 | Ydy | I'w gytuno. |
| Plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd neu salwch | Angen ei ddatblygu | Gwerthusiad opsiynau ei angen ar ffurf yr integreiddio | I'w gytuno |
| Anableddau Dysgu | I'w ddatblygu | Gwerthusiad opsiynau ei angen ar ffurf yr integreiddio | I'w gytuno |
| Gofalwyr | I'w ddatblygu | Gwerthusiad opsiynau ei angen ar ffurf yr integreiddio | I'w gytuno |
| Trefn Lywodraethol a Chytundeb Ysgrifenedig Cronfa Gofal Integredig (ICF) | Canllaw Statudol yn nodi bod rhaid i'r cytundeb ysgrifenedig fod yn weithredol o 1 Ebrill 2017. Cytundeb ysgrifenedig i gael ei gymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd ar ran y Partïon.<br><br>Yr amcanion yw y dylai'r cytundeb nodi'r gofynion llywodraethu a'r trefniadau adrodd er mwyn i'r ICF fod yn | Nid yw'n Gronfa Gyfun dan y Ddeddf Iechyd yng 'ngwir' ystyr y gair, ond bydd un partner yn dal y gronfa ar ran y cyfan.<br><br>Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn allweddol ynghyd â Chynllun Refeniw a Buddsoddi. | Holl Gynghorau'r Gogledd a BIPBC |

Fersiwn 1.0

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fecanwaith i gefnogi cyflawni'r Ddeddf. | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | I'w ddatblygu | Gwerthusiad opsiynau ei angen ar ffurf yr integreiddio | I’w gytuno |

**ANECS B - RHESTR O GYTUNDEBAU A.33 DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006 PRESENNOL (GOGLEDD CYMRU) (mae'n bosib nad yw hon yn rhestr gyflawn)**

**ANECS C**

**CYLCH GORCHWYL Y BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL a THROSOLWG O DREFN LYWODRAETHOL CYLLIDEBAU CYFUN (siart wedi'i hatodi)**

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
## Cylch Gorchwyl

### Cefndir a Chyd-destun

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn weithredol ar 6 Ebrill 2016. Mae Rhan 9 y Ddeddf yn gosod cyfrifoldebau penodol i bartneriaid yn nhermau gweithio mewn partneriaeth a ffurfio trefniadau llywodraethu newydd.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gweithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chefnogaeth effeithiol yn eu lle i fodloni anghenion y boblogaeth yn y ffordd orau. Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

### Gofynion Allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

- Ymateb i'r asesiad anghenion y boblogaeth a wnaed yn unol ag adran 14 y Ddeddf
- Sicrhau bod cyrff y bartneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer trefniadau'r bartneriaeth
- Hyrwyddo sefydlu'r cyllidebau cyfun ble bo hynny'n briodol
- Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i wella deilliannau i bobl yn eu rhanbarth
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol i wella darparu gwasanaethau, gofal a chefnogaeth, gan ddefnyddio technoleg a systemau cyffredin i danategu hyn
- Sicrhau cynnydd ar integreiddio gwasanaethau ar gyfer yr isod:
    - Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hir-dymor, yn cynnwys dementia
    - Pobl ag anableddau dysgu
    - Gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc
    - Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig a chyllidebau ac adnoddau cyfun
    - Plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd neu salwch

- Sicrhau bod cronfeydd cyfun yn cael eu sefydlu a'u rheoli mewn perthynas â llety cartrefi gofal i ddigwydd o 6 Ebrill 2018
- Sicrhau bod y cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn cael ei gyflawni
- Adrodd yn flynyddol ar waith a chynnydd y Bwrdd i Lywodraeth Cymru
- Cael trosolwg o arian grant rhanbarthol ac adroddiadau ar eu defnydd er enghraifft - Grant Cyflawni Trawsffurfio; Y Gronfa Gofal Canolraddol; Grant Sylfaenol a Chymunedol; Grant gofalwyr.

**Rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**
Rolau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd:

- Sicrhau fod yna weledigaeth a rennir ac y cytunwyd arni a chyfeiriad clir ar gyfer datblygu gwasanaethau ac integreiddio iechyd, gofal a llesiant
- Sicrhau bod cynlluniau a strategaethau a rennir yn eu lle (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) ar gyfer cyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn deilliannau a dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt ac a ddeellir
- Arwain ymagwedd strategol i gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad hwn a'r cynnydd a wneir
- Sicrhau bod egwyddorion y bwrdd yn cael eu cynnal
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a glustnodir gan y CTSSWPB
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau. Dwysáu unrhyw rwystrau i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno fel sydd angen i Lywodraeth Cymru.

**Aelodaeth**
Rhaid i aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnwys yr isod:

- O leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol wnaeth sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- O leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol wnaeth sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Y person a benodwyd fel cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol dan adran 144 y Ddeddf yng nghyswllt bob un o'r awdurdodau lleol wnaeth sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu gynrychiolydd enwebedig ar ei r(h)an
- Cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol wnaeth sefydlu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Dau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector yn ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol

- O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Un person sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gofal a chefnogaeth yn ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol
- Un person i gynrychioli gofalwyr yn ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol

Gall y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gyfethol pobl eraill i fod yn aelodau o'r bwrdd fel sy'n briodol. Mae'r rheoliadau'n cyfeirio at isafswm aelodaeth y byrddau ond mae nifer y cynrychiolwyr ac amrediad y bobl sydd ynghlwm yn faterion i gael eu penderfynu'n lleol

**Trefniadau Cadeirio**
Bydd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodaeth p'un a yw'n aelod gofynnol neu gyfetholedig.

Bydd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodaeth p'un a yw'n aelod gofynnol neu gyfetholedig.

Ni all y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gynrychioli'r un sefydliad. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi o sector i sector.

Tymor y Cadeirydd fydd 1 flwyddyn ac yna bydd yr Is-gadeirydd yn dod yn Gadeirydd; yna bydd yr aelodau'n ethol Is-gadeirydd newydd.

**Cefnogaeth Fusnes ar gyfer y Bwrdd**
Bydd y Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn darparu cefnogaeth fusnes ac ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol sedd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Amlder y Cyfarfodydd**
Cynhelir cyfarfodydd o leiaf bob chwarter a chytunir ar ddyddiadau ar ddechrau bob blwyddyn.

**Cworwm**
Bydd cworwm yn y cyfarfod pan fo hanner yr aelodau craidd yn bresennol h.y.
3 Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol neu eu cynrychiolwyr enwebedig
1 Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd
3 Aelod Etholedig
1 person sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau'r trydydd sector
(nid yw hyn yn cynnwys aelodau cyfetholedig).

**Cyfathrebu**
Bydd rhaglen a phapurau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Cynhelir cyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg drwy ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd. Bydd aelodau'r Bwrdd yn

cymryd rhan yn eu dewis iaith.  Bydd ffurfiau cyfathrebu eraill ar gael i aelodau fel sydd angen.

**Papurau'r bwrdd**
Bydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cylchredeg wythnos cyn dyddiad y cyfarfodydd.   Mae'r papurau'n ddogfennau cyhoeddus a gellir eu rhannu'n ehangach.

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Cyng. Aled Jones | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Awen Edwards | Cyfarwyddwr, Cyngor Gwynedd |
| Cyng. Bobby Feeley | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir Ddinbych |
| Caroline Turner | Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyng. Christine Jones | Aelod Arweiniol, Cyngor Sir y Fflint |
| Clare Field | Cyfarwyddwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng. Sue Lloyd-Williams | Aelod Arweiniol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| David Worrall | Cynrychiolydd Trydydd Sector |
| Debbie Shaffer | Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth |
| Jenny Williams | Cyfarwyddwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng. Joan Lowe | Aelod Arweiniol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Lynda Colwell | Cynrychiolydd Trydydd Sector |
| Margaret Hanson | BIPBC |
| Mary Wimbury | Cynrychiolydd Darparwyr |
| Morag Olsen | Prif Swyddog Gweithredol, BIPBC |
| Neil Ayling | Cyfarwyddwr, Cyngor Sir y Fflint |
| Nicola Stubbins | Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ddinbych |
| Richard Weigh | Prif Swyddog Cyllid (adran 151) (Cyfetholedig) |
| Vin West | Cynrychiolydd Gofalwyr |
| Wendy Jones | Cynrychiolydd Trydydd Sector |
| Cyng. William Gareth Roberts (Cadeirydd) | Aelod Arweiniol, Cyngor Gwynedd |

Fersiwn 1.0

**[Mewnosod siart trosolwg o drefn lywodraethol]**

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Cabinet |
| Dyddiad | 16eg o Ionawr 2018 |
| Teitl | Trefniadau Llywodraethu arfaethedig Cwmni Hamdden Cyngor Gwynedd |
| Awdur | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Aelod | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Pwrpas | Cyflwyno telerau llywodraethu arfaethedig ar gyfer cymeradwyaeth y Cabinet |

**1 Y penderfyniad a geisir**

1.1 I ddirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi dogfennau cyfansoddiadol cwmni cyfyngedig drwy warant gan ymgorffori y prif faterion ac egwyddorion a argymhellir yn yr adroddiad.

1.2. Awdurdodi'r Pennaeth Adran Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i fwrw ymlaen i gofrestru'r Cwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau yn unol a gofynion ac amserlen y Prosiect Hamdden a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau hyn.

1.3 I gadarnhau fod y broses o benodi'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr a Rheolwr Gyfarwyddwr i gychwyn

**2. Cyflwyniad**

2.1 Ar y 3ydd a 5ed o Hydref bu'r Cabinet a'r Cyngor Llawn gymeradwyo sefydlu Cwmni, cyfyngedig drwy warant, wedi ei reoli gan y Cyngor, i ddarparu cyfleusterau hamdden yng Ngwynedd.

2.2 Mae'r adroddiad sydd gerbron heddiw yn cynnig crynodeb o'r prif delerau llywodraethu. Bydd manylion pellach ynglŷn a'r berthynas cyfreithiol yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn tymor y Gwanwyn yn 2018.

2.3 Cyflwynwyd y telerau arfaethedig i Bwyllgor Craffu Economi a Chymuned ar yr 13eg o Ragfyr ac mae eu sylwadau ac argymhellion wedi'u hystyried o fewn yr adroddiad yma. Bydd rhai o'r materion eraill a godwyd hefyd yn cael ystyriaeth wrth ddatblygu'r dogfennau cyfreithiol eraill.

2.4 Gofynnir i'r Cabinet ystyried y telerau arfaethedig er mwyn mynd ati i sefydlu dogfennaeth cyfreithiol y Cwmni a chychwyn y broses o benodi Cyfarwyddwyr. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi cynrychiolaeth awdurdodedig i'r Cwmni newydd wrth i ni fynd ymlaen i wedd nesaf y trosglwyddiad.

**3. Y strwythur llywodraethu ac aelodaeth**

3.1 Cynigir fod o leiaf 5 cyfarwyddwr ar y Bwrdd ac mai aelodau etholedig y Cyngor fydd y cyfarwyddwyr hyn. Gellir ystyried penodiad y Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Bwrdd eto maes o law.

3.2 Mewn egwyddor, fe fydd cyfnod y penodiadau yn cyd-fynd a chyfnod y Cyngor, yn ychwanegol i 3 mis o gyfnod trosiannol os yw'r cyfarwyddwr yn cael ei ail-ethol fel Cynghorydd.

3.3 Argymhellir peidio a phenodi Aelodau Cabinet a Swyddogion ar y Bwrdd oherwydd y tebygolrwydd o wrthdaro buddiannau. Mae hyn yn deillio o'r ddyletswydd statudol ar Gyfarwyddwyr i hyrwyddo diddordebau'r Cwmni a gall fod enghreifftiau pan fydd y diddordebau rheini yn groes i rai y Cyngor. Fodd bynnag, credir y byddai'n briodol fod swyddog o'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, mewn rôl arsylwi yn unig.

3.4 Yn unol a sylwadau'r Pwyllgor Craffu bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r opsiwn o ategu Byrddau Partneriaethau a/neu Cynghorol. Gall trefniant o'r fath sicrhau mewnbwn i budd-ddeiliaid ar ddatblygiadau'r Cwmni ond bydd angen rhoi ystyriaeth pellach i ddyluniad effeithiol y trefniadau hynny.

3.5 Cynigir fod y Bwrdd yn cwrdd o leiaf yn chwarterol a bod angen cworwm o dri. Cyn y trosglwyddiad fodd bynnag mae'n bosib fod angen cyfarfod yn fwy aml na hynny.

3.6 Yn ei gyfarfod ym mis Medi y llynedd bu'r Pwyllgor Craffu fynegi pryder ynglŷn â cholli rheolaeth ddemocrataidd drwy sefydlu'r Cwmni newydd. Cynigir fod angen i'r Cwmni adrodd i'r Cyngor yn unol â threfniadau herio perfformiad presennol yn ogystal â chyflwyno eu Cynllun Busnes blynyddol ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor, eu cyfrifon yn flynyddol i'r Cabinet, a fod eu perfformiad yn ddarostyngedig i Bwyllgor Craffu, unwaith eto yn unol a threfniadau presennol.

3.7 Mater i'r Cyngor yw penderfynu strwythur y Bwrdd a'i aelodaeth a gellir ei adolygu ar unrhyw adeg. Y cyfyngiad allweddol yw'r angen i gadw lefel digonol o reolaeth er mwyn bodloni anghenion yr eithriadau "Teckal" a'r angen i gael lefel o annibyniaeth dderbyniol i bwrpas trethiannol.

**4 Penodi i'r Bwrdd**

4.1 Y Cabinet neu'r Aelod Cabinet fydd yn penodi'r Bwrdd o Gyfarwyddwr, fel y byddai'n ei wneud gydag unrhyw gorff allanol arall. Bydd y penodiad cychwynnol ar ffurf gysgodol nes bod y cwmni yn cael ei gofrestru'n ffurfiol.

4.2 Cynigir yr egwyddorion isod fel canllaw ar gyfer penderfynu ar aelodaeth y Bwrdd; eu bwriad ydi i ffurfio fframwaith i gefnogi'r broses ond yr angen i daro'r cydbwysedd gorau o sgiliau a rhinweddau fydd yn gyrru'r broses yn ei hanfod. Yn unol â Deddf Cwmni 2006 mae gofyn i gyfarwyddwyr fod â sgiliau a gwybodaeth angenrheidiol i redeg cwmni ac mae ffactorau eraill fydd yn arwain at ffurfio Bwrdd effeithiol a cynrychiadol:

4.2.1 Fod cydbwysedd daearyddol, gwleidyddol, rhyw ac oedran ar y Bwrdd

4.2.2 Fod Cynghorwyr yn gallu arddangos dealltwriaeth o rôl Cyfarwyddwr

4.2.3 Fod Cynghorwyr gyda rhinweddau cyfathrebu cryf a’r gallu i fynegi barn gytbwys, yn gallu gwrando ar farn eraill; y gallu i herio a thrafod

4.2.4 Fod Cynghorwyr â rhinweddau dadansoddi cryf; y gallu i ddarllen testun cymhleth a chynnig cwestiynau a sylwadau.

4.2.5 Gallu ymrwymo amser i’r Bwrdd

4.2.6 Fod yna cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ar y Bwrdd.

4.3 Yn unol â threfniadau penodi arferol i gyrff allanol bydd yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, yn yr achos yma, yn cyhoeddi’r penderfyniad ar ffurf Taflen Benderfyniad yn dilyn cymeradwyaeth ffurfiol o’r trefniadau llywodraethu gan y Cabinet. Cynigir fod hyn yn cael ei wneud ddim hwyrach nag Ionawr 2018.

4.4 Bydd ystyriaeth yn cael ei roi drefniadau anwytho a hyfforddi maes o law.

4.5 Ni fydd cydnabyddiaeth tâl i’r Bwrdd gan fod hyn wedi ei atal o fewn y rheoliadau perthnasol.

**5 Telerau allweddol y Memorandwm ac Erthyglau’r Cwmni**

5.1 Argymhellir mai cwmni cyfyngedig drwy warant yw strwythur cyfreithiol y Cwmni gyda’r Cyngor yr unig aelod (sydd gyfystyr a chyfranddaliwr mewn strwythur masnachol). Mae hyn yn fodel sy’n gyfarwydd i fanciau a phartïon trydydd parti ac mae’r ddeddfwriaeth yn fwy diweddar o gymharu ag opsiynau eraill megis, cymdeithas wedi cofrestru. Yn yr un modd mae’n fwy hyblyg yng nghyswllt newidiadau i femorandwm ac erthyglau’r cwmni. Dyma’r model roddwyd ymlaen yn yr achos busnes a gadarnhawyd gan y Cyngor ar y 5ed o Hydref.

5.2 Bydd rhaid i’r cwmni fod ag amcanion dyngarol ac nid ar gyfer elw er mwyn cyflawni’r arbedion trethiannol sy’n gwneud y model yma’n fanteisiol. Mae hyn yn golygu na fedr y Cyngor dderbyn difidend neu daliad blynyddol o unrhyw elw neu dderbyn unrhyw fudd ariannol os yw’r cwmni yn cael ei derfynu. Mewn gwirionedd ni ragwelir hyn yn broblem yn y tymor byr o ystyried y newid sylweddol i incwm a gwariant dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd trefniadau mewn lle i fonitro perfformiad a pherfformiad ariannol y Cwmni er sicrhau gweithredu buan a phendant mewn sefyllfa o fethiant.

5.3 Bydd yr amcanion penodol yn gyfyngedig i gynnwys hamdden, adloniant, iechyd a lles er, gellir ychwanegu meysydd gwasanaeth eraill yn y dyfodol os oes angen. Ni gynigir unrhyw gyfyngiadau daearyddol gan felly caniatáu'r posibilrwydd o fasnachu tu allan i Wynedd petai gyfleoedd yn dod i’r amlwg.

5.4 Fodd bynnag, fe fydda tyfiant masnachu yn cael ei reoli er mwyn sicrhau nad ydi’r trothwy o 20% o fasnachu allanol yn cael ei dorri. Rhagwelir y bydd hyn yn ei dro hefyd yn sicrhau fod ffocws y gwasanaethau yn parhau i bwrpas pobl Gwynedd.

5.5 Bydd rheolaeth ar allu’r Cwmni i fenthyg a chael gwared a chaffael asedau sylweddol.

5.6 Cynigir fod gallu'r cwmni i addasu amodau a thelerau cyflogaeth uwch reolaeth y cwmni yn fater sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor.

5.7 Bydd yr erthyglau yn cynnwys yr angen i iaith fewnol y Cwmni fod yn Gymraeg, a bod y Cwmni yn mabwysiadu Polisi Iaith y Cyngor. Bydd yr un disgwyliad yn berthnasol i weddill polisïau'r Cyngor a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r contract.

5.8 Bydd y Cyngor yn comisiynu o leiaf 80% o fusnes y Cwmni drwy'r contract ac mi fydd yn cynnwys gofynion yng nghyswllt trefniadau codi ffioedd, defnydd gan ysgolion a safonau perfformiad ayyb. Bydd adroddiad pellach ar amodau a thelerau'r cytundebau rhwng y cwmni a'r Cyngor yn destun sylw pellach i'r Pwyllgor Craffu a Chabinet yn tymor y Gwanwyn 2018.

**6 Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr**

6.1 Cynigir cychwyn broses recriwtio Rheolwr Gyfarwyddwr o fewn y mis.

6.2 O ystyried yr amserlen posib a bod penodiad ac amseriad penodiad, i ryw raddau, tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol mae gofyn sicrhau amser digonol i'r broses. Mae cryn dipyn o waith paratoi yn angenrheidiol er mwyn sicrhau trosglwyddiad mor esmwyth â phosib yn ogystal â pheth gwaith i ddatblygu cynllun busnes y Cwmni. Yn anorfod hefyd fydd yr angen i gael holltiad cyfreithiol cyn y trosglwyddiad, ac felly cynrychiolaeth awdurdodedig ar ran y Cwmni wrth i'r broses drosglwyddo symud ymlaen

6.3 Gan na fydd y Cwmni yn bodoli am rhai misoedd eto bydd gofyn i'r Cyngor wneud y penodiad yn y lle cyntaf gyda'r bwriad y bydd y sawl a benodi'r yn trosglwyddo i gyflogaeth y cwmni wedi iddo gael ei sefydlu.

6.4 Bwriedir penodi y Bwrdd o Gyfarwyddwyr mewn da bryd i sicrhau cyfle i ymgynghori ar y penodiad; fodd bynnag, dylid nodi mai penodiad gan y Cyngor fydd hwn ac mi fydd yn ddarostyngedig i reoliadau penodi perthnasol.

**7 Amserlen berthnasol**

7.1 Penodiadau i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr dim hwyrach na 31/01/18.

7.2 Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr 24/02/18.

## Barn Aelod lleol

Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid

"Mae'r penderfyniad a geisir yma yn gam allweddol wrth weithredu penderfyniad blaenorol y Cyngor i sefydlu cwmni. Mae'r Adran Cyllid yn rhoi mewnbwn barhaus i'r prosiect yma, ac rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o'r camau gweithredu cytunedig. Rwyf hefyd yn fodlon fod canlyniadau ariannol y penderfyniad a geisir wedi cael eu cynnwys yn yr achos busnes a fu'n sail i'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Sylwadau'r Swyddog Monitro

"Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol eisoes wedi cael mewnbwn i'r adroddiad felly dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16 Ionawr 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Llunio Strategaeth Asedau Newydd 2019-20 i 2028/29** |

**Y penderfyniad a geisir**

Cymeradwyo'r drefn ar gyfer sefydlu strategaeth asedau newydd ar gyfer y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29 a nodir yng nghymalau 18 i 21 yr adroddiad.

**Cefndir**

1. Yn 2009, fe wnaeth y Cyngor asesiad o'i anghenion cyfalaf tebygol am y 10 mlynedd i ddod.

2. Lluniwyd asesiad hefyd o'r adnoddau cyfalaf fyddai ar gael i ni am y cyfnod, ac yn dilyn yr asesiadau yma, ac yn wyneb y ffaith nad oedd ein hadnoddau am ganiatáu i ni gyfarch yr holl anghenion cyfalaf, cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau'r Cyngor i geisio sefydlu beth oedd eu blaenoriaethau cyfalaf am y 10 mlynedd i ddod.

3. Yn sgil y trafodaethau hynny sefydlwyd Strategaeth Asedau, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 22 Hydref 2009.

4. Bu i mi adrodd i'r Cabinet ar 28 Mawrth y llynedd ynglŷn â beth a gyflawnwyd drwy'r strategaeth honno, a theg yw dweud ein bod wedi medru cyflawni dipyn dros y 10 blynedd diwethaf er gwaethaf y ffaith fod yr adnoddau cyfalaf a ddarperir i lywodraeth leol wedi gostwng yn sylweddol dros y cyfnod.

5. 2018/19 fydd blwyddyn olaf y strategaeth bresennol ac mae angen i ni sefydlu strategaeth newydd felly ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd nesaf.

6. Pwrpas yr adroddiad yma yw hysbysu'r Cabinet o'r sefyllfa ddiweddaraf gan awgrymu dull ar gyfer sefydlu'r strategaeth newydd.

**Y mater sydd angen sylw**

7. Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol refeniw sydd yn ceisio adnabod beth fydd y gost o redeg ein gwasanaethau dros y 3 neu 4 blynedd i ddod er mwyn cynllunio trywydd ariannol ar sail y tybiaethau hynny.

8. Bob blwyddyn wedyn 'rydym yn sefydlu cyllideb flynyddol ac yn addasu'r tybiaethau yn ôl yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a'r adnoddau sydd wirioneddol ar gael i ni.

9. Ar ben hyn fodd bynnag, fe fydd gan wasanaethau ofynion cyfalaf er mwyn gallu gwireddu eu gwasanaethau. Mae'n bur debyg y bydd yna ofynion cyfalaf yn codi wrth i'r Cyngor ystyried ei Gynllun Corfforaethol ym mis Chwefror hefyd.

10. Fel y gwneir ar gyfer refeniw mae angen llunio strategaeth fwy hir dymor er mwyn sefydlu beth fydd ein blaenoriaethau gwariant cyfalaf dros y 10 mlynedd i ddod gan ystyried ein gallu i dalu amdano.

11. Fel man cychwyn felly 'rydym wedi gofyn i bob Adran feddwl am beth fyddai eu hanghenion cyfalaf am y 10 mlynedd i ddod ac 'rydym wedi hel yr anghenion hynny at ei gilydd.

12. Rhoddir crynodeb lefel uchel o gynnyrch y gwaith hwnnw yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1**
**Crynodeb o ofynion cyfalaf a adnabuwyd hyd yma**

| | | **£'000** |
|---|---|---|
| **Addysg** | | |
| | Amrywiol Gynlluniau i wella ysgolion o dan gynllun Ysgolion 21ain ganrif Llywodraeth Cymru | 25,641 |
| **Cyllid** | | |
| | Adnewyddu cyfarpar technoleg gwybodaeth | 7,215 |
| **Economi a Chymuned** | | |
| | Amrywiol addasiadau ac adnewyddu Llyfrgelloedd ; cyfleusterau hamdden; cyfleusterau morwrol a pharciau gwledig, amgueddfeydd ac orielau. | 3,125 |
| **Oedolion** | | |
| | Ail lunio'r ddarpariaeth gofal preswyl o fewn y sir | 8,625 |
| | Ymestyn y ddarpariaeth tai gofal o fewn y Sir | 5,500 |
| | Grantiau Adnewyddu | 20,000 |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | |
| | Atal dirywiad ffyrdd | 10,000 |
| | Adnewyddu Pontydd | 1,779 |
| | Adnewyddu Goleuadau Stryd; Ffensys Diogelwch; ymateb i lifogydd ar y ffyrdd | 2,650 |

| | |
|---|---|
| Gwaith adnewyddu cyfarpar mewn meysydd chwarae; darparu tir claddu; adnewyddu toiledau cyhoeddus | 1,363 |
| Adnewyddu pibellau dwr mewn stadau tai | 2,400 |
| Adnewyddu fflyd y Cyngor | 2,037 |
| Gweithfeydd i safleoedd gwastraff | 928 |
| **Amgylchedd** | |
| Gwneud gwaith dichonoldeb i baratoi cynlluniau | 1,000 |
| Gweithfeydd i Lonydd Glas | 200 |
| Cynnal a chadw adeiladau | 28,108 |
| **Ymgynghoriaeth** | |
| Amddiffyn yr Arfordir / Llifogydd | 3,463 |
| **Cyfanswm hyd yma** | **124,034** |

13. Dylid nodi nad yw'r crynodeb yma yn cynnwys unrhyw adnoddau cyfalaf fydd yn cael eu hadnabod fel rhan o sefydlu Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ac mae yna bosibilrwydd felly mai cynyddu fydd y gofynion yma.

14. Oni bai fod yna newid ym maint yr adnoddau cyfalaf a roddir i Lywodraeth Leol, amcangyfrifir ar sail yr adnoddau cyfalaf sy'n cael eu hariannu drwy'r setliad ar hyn o bryd mai tua £67m fydd ar gael i ni dros y 10 mlynedd dan sylw.

15. Yn amlwg felly mae'r galw o £124m lawer uwch na'r adnoddau fydd ar gael a bydd angen blaenoriaethu felly.

16. Fe welwyd sefyllfa debyg pan fu'r Cyngor yn ceisio sefydlu'r strategaeth bresennol yn 2009, ond yr adeg hynny nid oedd y cyfyngiadau ar wariant refeniw mor hegar ag y gwelir heddiw ac 'roedd opsiwn ar gael i'r Cyngor edrych am arbedion effeithlonrwydd i ariannu mwy o wariant cyfalaf, a dyna wnaed.  Bu modd ariannu tua £23m o wariant cyfalaf drwy wneud hynny.

17. Oherwydd y cyfyngiadau sylweddol ar y grant refeniw yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, a'r pwysau eithriadol y mae hynny yn ei roi ar ein cyllidebau refeniw, nid yw hyn yn debygol o fod yn opsiwn y tro hwn.

18. Awgrymaf ein bod yn dilyn trefn debyg i'r un a ddilynwyd y tro diwethaf o gynnal cyfres o weithdai i alluogi holl aelodau'r Cyngor i fynegi eu barn ar y blaenoriaethau cyn i'r Cabinet wneud argymhellion ffurfiol i'r Cyngor.

19. Y tro diwethaf fe gyflwynwyd casgliadau'r gweithdai i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol er mwyn cael eu barn nhw cyn i'r Cabinet eu hystyried ac awgrymir ymhellach ein bod yn dilyn trefn gyffelyb y tro hwn hefyd.

20. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fyddai'n ymarfer y rôl honno y tro yma, ac efallai y byddai'n syniad penodi grŵp bach o unigolion o'r Pwyllgor hwnnw i graffu'r hyn fydd yn dod allan o'r gweithdai, ond gellir trafod hynny gyda'r Cadeirydd pan fydd y Cabinet yn cwrdd â Chadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu.

21. Os yw'r Cabinet yn cytuno, awgrymir ein bod yn dilyn yr amserlen ganlynol

| Tasg | Pryd |
|---|---|
| Sefydlu unrhyw ofynion ar gyfer y Cynllun Corfforaethol | Erbyn diwedd Chwefror |
| Cynnal gweithdai i holl aelodau'r Cyngor fynegi barn | Erbyn diwedd Mai |
| Cyflwyno canlyniadau'r gweithdai i'r Pwyllgor Archwilio am farn | Erbyn diwedd Gorffennaf |
| Cabinet i ystyried argymhellion cyn cyflwyno Strategaeth ddrafft i'r Cyngor | Medi |
| Strategaeth Asedau i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w fabwysiadu | Hydref |

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Ystyrir fod y trywydd ymgynghori a phenderfynu yn briodol yn y sefyllfa a amlinellir yn yr adroddiad. Dim sylwadau eraill o ochr priodoldeb

**Pennaeth Cyllid**

Mae swyddogion Cyllid wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Ionawr 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2017/18 –
Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2017)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2017) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Cynaeafu (£270k) o danwariant Gostynigiad Treth y Cyngor, (£12k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£803k) o ganlyniad i dderbyniad grant ac amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda elfen ohono ar gyfer digolledu effaith gorwariant posib ar gludiant tacsis ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad yr ail chwarter i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2017. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn cael ei gyflwyno yn gynt na'r arferol, mewn paratoad ar gyfer yr her o dynhau amserlen cau cyfrifon Llywodraeth Leol.

Cyflwynir yr adroddiad adolygiad trydydd chwarter yma ar gyllideb refeniw'r Cyngor am 2017/18, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

## 3. Diweddariad ers yr Ail Chwarter

Ar y cyfan, mae'r adolygiad trydydd chwarter yn debyg i'r ail chwarter, gyda sefyllfa ariannol mwyafrif yr adrannau wedi gwella a gwerthfawrogir eu llwyddiant i geisio rheoli eu cyllidebau. Ond, bu cynnydd yng ngorwariant yr Adran Plant a Theuluoedd.

### 3.1 Adran Plant a Theuluoedd

Y tuedd o orwariant a welwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn parhau, gyda gorwariant ar wasanaethau lleoliadau a gweithredol. Mae'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Plant a Theuluoedd eisioes mewn trafodaethau i geisio datrysiad ar gyfer 2018/19.

### 3.2 Corfforaethol

Lleihad yn yr hawliadau Gostyngiadau Treth Cyngor, bidiau na fydd yn cael eu defnyddio eleni, a thanwariant o ganlyniad i dderbyniad grant ac amgylchiadau ffafriol diweddar. Argymhellir ei drosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda elfen ohono i ddigolledu effaith gorwariant posib ar gludiant tacsis ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn.

## 4. Materion Cyfredol

### 4.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Y bwriad yw i'r Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn fuan, yn ail-becynnu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni.

### 4.2 Adran Addysg

Yn yr adolygiad ail chwarter gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg sicrhau fod y Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd i ymchwilio i'r cynnydd yn y gwariant ar gludiant tacsis ysgolion a gweithredu i reoli y sefyllfa. Tra bod polisïau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu a chynllun yn cael ei sefydlu gyda golwg ar wella y sefyllfa ariannol, bydd angen trosglwyddo arian pontio i'r Adran ar ddiwedd y flwyddyn, pan fydd swm y gorwariant yn fwy cadarn.

## 5. Cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r adolygiad trydydd chwarter o'r cyllidebau yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau'r Cyngor, ond argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant i'r Adrannau Addysg, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Theuluoedd, a Priffyrdd a Bwrdeistrefol, i sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2018.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol

## Cyllideb Refeniw 2017/18 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Ail Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,612** | **98** | **0** | **98** | *216* |
| **Plant a Theuluoedd** | **13,960** | **595** | **0** | **595** | *396* |
| **Addysg** | **89,927** | **238** | **0** | **238** | *264* |
| **Economi a Chymuned** | **11,468** | **(61)** | **0** | **(61)** | *(33)* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **23,333** | **404** | **0** | **404** | *600* |
| **Amgylchedd** | **7,717** | **(61)** | **0** | **(61)** | *(100)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **1,107** | **(9)** | **0** | **(9)** | *35* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **691** | **(67)** | **0** | **(67)** | *(71)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | **776** | **(72)** | **0** | **(72)** | *(68)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **314** | **(88)** | **0** | **(88)** | *(100)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | **(1,583)** | **1,085** | **(498)** | *(365)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **199,905** | **(606)** | **1,085** | **479** | *774* |

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,478 | 10,404 | (74) | 0 | (74) | 47 |
| Gofal Cartref | 6,223 | 6,139 | (84) | 0 | (84) | (206) |
| Eraill | 2,678 | 2,407 | (271) | 0 | (271) | (254) |
| | 19,379 | 18,950 | (429) | 0 | (429) | (413) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 492 | 485 | (7) | 0 | (7) | (14) |
| Gofal Cartref | 994 | 1,045 | 51 | 0 | 51 | 69 |
| Eraill | 713 | 554 | (159) | 0 | (159) | (136) |
| | 2,199 | 2,084 | (115) | 0 | (115) | (81) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 14,934 | 14,552 | (382) | 0 | (382) | (219) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,492 | 1,745 | 253 | 0 | 253 | 220 |
| Eraill | 1,983 | 1,874 | (109) | 0 | (109) | (95) |
| | 3,475 | 3,619 | 144 | 0 | 144 | 125 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolaeth | 418 | 402 | (16) | 0 | (16) | (5) |
| Tîm Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,378 | 2,430 | 52 | 0 | 52 | 30 |
| | 2,796 | 2,832 | 36 | 0 | 36 | 25 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **42,783** | **42,037** | **(746)** | **0** | **(746)** | **(563)** |

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 9 | 280 | 271 | 0 | 271 | 184 |
| Gofal Dydd | 5 | 18 | 13 | 0 | 13 | 60 |
| Gofal Cymunedol | 2 | 341 | 339 | 0 | 339 | 331 |
| Eraill | 0 | (79) | (79) | 0 | (79) | (66) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **16** | **560** | **544** | **0** | **544** | **509** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 4,393 | 4,430 | 37 | 0 | 37 | 49 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,420 | 3,683 | 263 | 0 | 263 | 221 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **7,813** | **8,113** | **300** | **0** | **300** | **270** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,612** | **50,710** | **98** | **0** | **98** | **216** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - cynnydd mewn incwm a nifer o ffactorau yn gyfrifol am leihad yn y costau, gan gynnwys gostyngiad yn y nifer mewn gofal preswyl a llai o becynnau gyda'r angen am ddau ofalydd ar ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - tanwariant ar daliadau uniongyrchol a llety cefnogol yn cynorthwyo i leihau effaith y gorwariant sydd ar ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - incwm wedi ei ôl-ddyddio gan iechyd yn gyfrifol am y cynnydd yn y tanwariant. Yr holl feysydd o fewn y maes yn tanwario gan eithrio cynlluniau cefnogol sydd yn gorwario o ganlyniad i lithriad ar wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - dau achos preswyl newydd, ond tanwariant ar swyddi gwag a derbyniad grant ar wasanaethau eraill yn lleddfu ychydig ar y sefyllfa.

**Gwasanaethau Darparu** - parhad yn y tueddiad gorwariant yn deillio yn bennaf o gostau cysylltiedig â materion staffio. Costau teithio yn gyfrifol am £101k o'r gorwariant ar ofal cymunedol.

**Gwasanaethau Eraill - Canolog Adrannol** - mae'r rhagolygon yn adlewyrchu'r risg na fydd modd gwireddu gwerth £436k o arbedion, gyda nifer o gynlluniau arbedion wedi llithro o 2016/17. Y bwriad yw i'r Pennaeth Adran a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno adroddiad i'r Cabinet yn fuan, yn ail-becynnu cynlluniau arbedion er mwyn eu cyflawni. Swyddi gwag a derbyniad incwm yn lleihau y gorwariant a adroddir i £263k.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 511 | 492 | (19) | 0 | (19) | (21) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,995 | 2,151 | 156 | 0 | 156 | 138 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,947 | 2,272 | 325 | 0 | 325 | 213 |
| Maethu Drwy Asiant | 928 | 1,014 | 86 | 0 | 86 | 114 |
| Maethu Mewnol | 1,675 | 1,730 | 55 | 0 | 55 | 31 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,572 | 1,651 | 79 | 0 | 79 | 43 |
| | 6,122 | 6,667 | 545 | 0 | 545 | 401 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 913 | 903 | (10) | 0 | (10) | (34) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,565 | 1,627 | 62 | 0 | 62 | 43 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 234 | 195 | (39) | 0 | (39) | (31) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 126 | 73 | (53) | 0 | (53) | (54) |
| Gwasanaethau Eraill | 2,494 | 2,447 | (47) | 0 | (47) | (46) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,960** | **14,555** | **595** | **0** | **595** | **396** |


## Plant a Theuluoedd

**Gwasanaethau Gweithredol** - y gorwariant yn parhau, gyda cynnydd yn y gorwariant i £156k o ganlyniad i gostau staff uwchlaw lefel y gyllideb, ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond sydd ddim mewn lleoliadau maethu.

**Gwasanaethau Lleoliadau** - cynnydd yn gorwariant ar leoliadau all-sirol i £325k yn dilyn dau achos newydd drud heb unrhyw gyfraniad gan iechyd. Cynnydd yn y gorwariant ar lwfansau maethu a lwfansau gorchymyn preswyl yn y chwarter. Ni gafwyd achosion newydd ar faethu drwy asiant yn ystod y chwarter ac felly lleihad yn y gorwariant i £86k. Mae pwysau o ran nifer yr achosion ar y gwasanaeth, fel a amlygir yn y siart isod, ynghyd â methiant i gyflawni arbedion wedi arwain at y gorwariant.

**Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar** - amcan y bydd tanwariant o (£53k) yn dilyn derbyniad grant gofal plant newydd.

Gofynnir i'r Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a Phennaeth yr Adran sicrhau camau pendant i geisio lleihau'r gorwariant gan sicrhau fod y gyllideb dan reolaeth erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.



**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 73,208 | 73,208 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,246 | 4,486 | 240 | 0 | 240 | 264 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 358 | 351 | (7) | 0 | (7) | 6 |
| All Sirol | 953 | 917 | (36) | 0 | (36) | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 294 | 492 | 198 | 0 | 198 | 146 |
| Addysg Meithrin | 600 | 596 | (4) | 0 | (4) | (4) |
| Grant Grant Gwella Addysg | 564 | 529 | (35) | 0 | (35) | (40) |
| Rheolaeth | 1,534 | 1,453 | (81) | 0 | (81) | (66) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 3,088 | 3,102 | 14 | 0 | 14 | 14 |
| Addysg Bellach | 24 | 17 | (7) | 0 | (7) | (7) |
| Cyfraniad Addysg i Gyd-Bwyllgorau | 1,202 | 1,168 | (34) | 0 | (34) | (34) |
| Eraill | 3,856 | 3,846 | (10) | 0 | (10) | (15) |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,927** | **90,165** | **238** | **0** | **238** | **264** |

## Addysg

Y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu lleihad yn y gorwariant i £238k, o'i gymharu â'r £264k adroddwyd yn yr ail chwarter. Y prif feysydd sydd yn cyfrannu at y sefyllfa yw:

**Cludiant** - y tueddiad gorwariant yn parhau ers yr adolygiad ail chwarter, ond lleihad yn y rhagolygon i £240k, gyda diffyg o £54k ar werthiant tocynau cludiant ôl-16, tanwariant o (£9k) ar fysus ysgol, ond gorwariant o £195k ar gludiant tacsis ysgolion, yn dilyn cynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb. Yn yr adolygiadau blaenorol gofynnwyd i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Amgylchedd ymchwilio i'r cynnydd yng ngwariant ar gludiant tacsis ysgolion ac yna gweithredu i reoli'r sefyllfa. Tra fod polisïau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu gyda golwg i wella y sefyllfa ariannol, argymhellir fod arian pontio yn cael ei drosglwyddo i'r Adran ar ddiwedd y flwyddyn, pan fydd swm y gorwariant yn fwy cadarn.

**Arlwyaeth a Glanhau** - rhagwelir cynnydd yn y gorwariant i £198k, yn bennaf ar gostau yn deillio o salwch a materion staffio, ynghyd ag oediad cyn cyflawni arbedion y cynllun Brecwast am Ddim. Gwelwyd hefyd yn y rhagolygon diweddaraf leihad yn yr incwm o brydau ysgol.

**Rheolaeth** - cynnydd yn y rhagolygon tanwariant o (£66k) i (£81k) yn ystod y chwarter o ganlyniad i drosiant staff a llwyddiant i ddenu incwm a grantiau.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| Adran Economi a Chymuned | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 875 | 875 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dysgu Cymunedol | 3,458 | 3,414 | (44) | 0 | (44) | (40) |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,434 | 1,444 | 10 | 0 | 10 | 12 |
| Economi a Chymuned | 2,117 | 2,109 | (8) | 0 | (8) | (4) |
| Cymunedau'n Iach | 3,584 | 3,565 | (19) | 0 | (19) | (1) |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **11,468** | **11,407** | **(61)** | **0** | **(61)** | **(33)** |



## Economi a Chymuned

Y rhagolygon tanwariant bellach wedi cynnyddu i (£61k) o'r (£33k) a ragwelwyd yn yr adolygiad ail chwarter. O fewn y sefyllfa yma rhagwelir y bydd rhai gwasanaethau yn gorwario, gan gynnwys Morwrol, Orielau ac Amgueddfeydd, ond yn cael eu mantoli gan danwariant mewn meysydd eraill megis Cymunedau Iach a Datblygu Chwaraeon, Parciau Gwledig, Cefnogi Busnes a Neuaddau. Mewn paratoad ar gyfer arbedion 2018/19, mae'r Adran wedi gwireddu arbedion ymlaen llaw eleni.

**Dysgu Cymunedol** - amcenir tanwariant o (£44k) sydd yn gyfuniad o danwariant o (£28k) ar y Gwasanaeth Ieuenctid, gan fod cwtogiad yn y ddarpariaeth clybiau ieuenctid, trosiant staff yn gyfrifol am danwariant o (£20k) ar Adfywio Cymunedol a gorwariant o £4k ar Lyfrgelloedd.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd) | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 9,930 | 10,076 | 146 | 0 | 146 | 275 |
| Gwasanaethau Peirianneg | 401 | 482 | 81 | 0 | 81 | 89 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | 9,324 | 9,466 | 142 | 0 | 142 | 213 |
| Eraill | 3,692 | 3,758 | 66 | 0 | 66 | 49 |
| Unedau Darparu Bwrdeistrefol | (14) | (45) | (31) | 0 | (31) | (26) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **23,333** | **23,737** | **404** | **0** | **404** | **600** |



## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - y rhagolygon yn awgrymu y bydd cynnydd yn yr incwm contractau allanol, ynghyd â lleihad yn y llithriad ar arbedion Priffyrdd a Goleuo.

**Gwasanaethau Peirianneg** - cyfuniad o fethiant i wireddu cynlluniau arbedion, materion staffio a cholled cytundeb allanol yn gyfrifol am y gorwariant o £81k a ragwelir.

**Gwastraff** - lleihad yn y gorwariant gan fod y rhagolygon incwm yn fwy addawol bellach, ond gorwariant oherwydd costau gweithredol uwch a chostau cynyddol ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol - Eraill** - cynnydd yng nghostau gweithredol glanhau strydoedd.

Bu cynnydd yn y sefyllfa ariannol ers yr adolyiad ail chwarter, ond disgwylir fod yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Pennaeth Adran yn parhau i gymryd camau pendant i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 541 | 538 | (3) | 0 | (3) | (3) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 363 | 363 | 0 | 0 | 0 | (12) |
| Eraill | (51) | (64) | (13) | 0 | (13) | (3) |
| | 312 | 299 | (13) | 0 | (13) | (15) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 2,434 | 2,435 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 228 | 213 | (15) | 0 | (15) | (6) |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 527 | 520 | (7) | 0 | (7) | (12) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,444) | (1,449) | (5) | 0 | (5) | 1 |
| Cludiant Integredig | 1,969 | 1,929 | (40) | 0 | (40) | (18) |
| Gorfodaeth a Thrafnidiaeth | 135 | 141 | 6 | 0 | 6 | (44) |
| | 3,849 | 3,789 | (60) | 0 | (60) | (79) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 1,014 | 1,027 | 13 | 0 | 13 | 21 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 288 | 288 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,675 | 1,673 | (2) | 0 | (2) | (14) |
| Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 3 | 2 | (1) | 0 | (1) | (1) |
| Eiddo | 35 | 40 | 5 | 0 | 5 | (9) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **7,717** | **7,656** | **(61)** | **0** | **(61)** | **(100)** |

**Amgylchedd**

Parhad yn y tueddiad tanwariant ar draws mwyafrif gwasanaethau'r Adran, sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a rhagori ar incwm.

**Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - Cludiant Integredig yn gyfrifol am (£40k) o danwariant yr Adran, gyda chostau is ar gontractau. Serch hynny, rhagwelir costau cynnyddol yn dilyn ail-dendro teithiau bysus un gweithredwr yn ddiweddar.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (62) | (119) | (57) | 0 | (57) | (40) |
| Gwasanaeth Adeiladu | 34 | 59 | 25 | 0 | 25 | 70 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 935 | 935 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth Adeiladu | 200 | 223 | 23 | 0 | 23 | 5 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **1,107** | **1,098** | **(9)** | **0** | **(9)** | **35** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - y rhagolygon diweddaraf yn awgrymu cynnydd yn y tanwariant i (£57k), yn dilyn llwyddiant yr Adran i ddenu incwm ychwanegol drwy gyfuniad o waith mewnol ac allanol.

**Gwasanaeth Adeiladu** - lleihad yn y gorwariant yn dilyn denu rhagor o incwm am waith gan sefydliadau allanol a thanwariant ar gostau staff.

| Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 691 | 624 | (67) | 0 | (67) | (71) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 776 | 704 | (72) | 0 | (72) | (68) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 314 | 226 | (88) | 0 | (88) | (100) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **1,781** | **1,554** | **(227)** | **0** | **(227)** | **(239)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - amcan tanwariant o (£67k) gyda (£46k) ohono yn deillio o dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, (£9k) o arbedion a wireddwyd ymlaen llaw yn y maes Cynllunio Argyfwng gyda'r gweddill yn danwariant cyffredinol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - y tueddiad yn parhau o'r adolygiad ail chwarter gyda thanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran, ynghyd â denu incwm uwchlaw lefel y gyllideb.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant o (£88k) a ragwelir yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i drosiant staff, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Iechyd Galwedigaethol, Cyfieithu a'r Argraffdy.

**Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adolygiad Trydydd Chwarter**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2017/18 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2017/18 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2017/18** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gostyngiad Treth y Cyngor | * | * | (270) | 270 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 57 | 0 | 57 | (7) |
| Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (12) | 12 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (1,358) | 803 | (555) | (358) |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(1,583)** | **1,085** | **(498)** | **(365)** |

## Corfforaethol

**Gostyngiad Treth y Cyngor** - y tueddiad tanwariant ar gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor yn parhau, gyda lleihad yn y nifer o geisiadau yn dueddiad a welir yn bresennol hefyd gan Gynghorau eraill Gogledd Cymru.

**Derbyniad Llog Net** - rhagwelir gorwariant o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol ynghyd â'r angen am fenthyca yn allanol i gwrdd â'r anghenion gwario cyfredol.

**Eraill** - y rhagamcanion diweddaraf yn awgrymu fod modd rhyddhau (£803k), o ganlyniad i dderbyniad grant Llywodraeth Cymru ar ôl gosod y gyllideb ynghyd â newidiadau mewn amgylchiadau na ragwelwyd wrth osod cyllideb.

**Argymhellir** cynaeafu (£270k) o danwariant Gostynigiad Treth y Cyngor, (£12k) tanwariant un-tro ar fidiau a (£803k) o ganlyniad i dderbyniad grant ac amgylchiadau ffafriol ar gyllidebau eraill y Cyngor, gan eu trosglwyddo i'r Gronfa Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda pwysau anochel un-tro ar gyllidebau'r Cyngor, gyda elfen ohono ar gyfer digolledu effaith gorwariant posib ar gludiant tacsis ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Ionawr 2018

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2017/18 –
Adolygiad Trydydd Chwarter (sefyllfa Rhagfyr 2017)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad y trydydd chwarter (sefyllfa Rhagfyr 2017) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- (£21,000) lleihad mewn defnydd o fenthyca
- £567,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £27,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £71,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £132,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o drefn monitro cyllideb 2017/18. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £47.718m am y 3 blynedd 2017/18 – 2019/20.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £0.776m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2017/18 i 2018/19
- Atodiad C: Gwariant 9 mis cyntaf 2017/18

**2. Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £30.6m yn 2017/18, gyda £5.8m ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

## 3. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 i 2019/20

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 12,837 | 615 | - | 13,452 | 24 |
| Amgylchedd | 5,532 | 4,925 | - | 10,457 | 55 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 43 | 109 | - | 152 | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 547 | 709 | - | 1,256 | - |
| Economi a Chymuned | 910 | 152 | 200 | 1,262 | (9) |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 3,063 | 3,608 | - | 6,671 | 1 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 947 | - | - | 947 | - |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 207 | - | - | 207 | 50 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,172 | 3,686 | 2,377 | 12,235 | 412 |
| Ymgynghoriaeth | 162 | 125 | - | 287 | 243 |
| Corfforaethol | 222 | 570 | - | 792 | - |
| **CYFANSWM** | **30,642** | **14,499** | **2,577** | **47,718** | **776** |

## 4. NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

Mae cynnydd o £0.776m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,675 | 6,399 | - | 13,074 | - |
| Benthyca Arall | 8,116 | 804 | 992 | 9,912 | (21) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 5,831 | 927 | 200 | 6,958 | 567 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,137 | 292 | - | 1,429 | 27 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,356 | - | - | 2,356 | 71 |
| Cronfa Cyfalaf | (842) | 3,248 | - | 2,406 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,369 | 2,829 | 1,385 | 11,583 | 132 |
| **CYFANSWM** | **30,642** | **14,499** | **2,577** | **47,718** | **776** |

## 5. ARGYMHELLION

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2017/18 i 2019/20, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## 6. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2017/18 – 2019/20.

## 7. Ystyriaethau perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol. Nodaf fod y cynlluniau cyfalaf sylweddol yn cael eu herio yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad yr Aelodau Cabinet cyfrifol, ac felly gwelir cyfeiriadau at rhain yn yr Adroddiadau Perfformiad perthnasol.

## 8. Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A, B a C

--------------------------

## PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| **Benthyca Arall** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | (21) | |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Amddiffyn yr Arfordir (Adran Ymgynghoriaeth) - grant gan Lywodraeth Cymru at waith i amddiffyn yr arfordir er mwyn ehangu'r wal môr ym Morth y Gest. | 53 | 103 |
| • Gwella Cyfleusterau Cyhoeddus (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig - Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS - Tourism Amenity Investment Support) ar gyfer gwelliannau i doiledau cyhoeddus Bethesda, Beddgelert, Bala, Harlech ac Aberdaron | 134 | |
| • Cynllun i Uwchraddio Safleoedd Mwynderau Caergylchu/Llandygai (Adran Amgylchedd) - grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r ddau safle ailgylchu. | 105 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 27 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | 71 | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Addasiadau Coed Ffridd Arw (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) - defnydd uwch o gronfa adnewyddu i ymestyn y ddarpariaeth bynceri ailgylchu, lleoli pont bwyso ac ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer didoli caniau oddi wrth blastigion. | 134 | |

---------------------------

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau:

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 |
|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor a Chynlluniau Rheoli Carbon (Adran Amgylchedd – Uned Eiddo) | (1,641) | 1,641 |
| Adnewyddu Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (1,226) | 1,226 |
| Cynlluniau Grantiau Tai (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Dai) | (758) | 758 |
| Cynlluniau Adnewyddu Cyfrifiaduron (Adran Gyllid a Thechnoleg Gwybodaeth) | (360) | 360 |
| Ysgolion Ganrif 21(Adran Addysg) | (269) | 269 |
| Ail-wynebu meysydd parcio (Adran Amgylchedd) | (219) | 219 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

-----------------------------

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 9 Mis Cyntaf 2017/18**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2017/18 £'000 | GWIR WARIANT 9 MIS HYD AT 13/12/2017 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 12,837 | 8,746 |
| Amgylchedd | 5,532 | 2,156 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 43 | 28 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 547 | 354 |
| Economi a Chymuned | 910 | 801 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 3,063 | 882 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 947 | 470 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 207 | 48 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,172 | 1,986 |
| Ymgynghoriaeth | 162 | 32 |
| Corfforaethol | 222 | - |
| **CYFANSWM** | 30,642 | 15,503 |

**Noder:**
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (51%) yn gyfatebol is na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (59%).

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 16 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Craig ab Iago,<br>Aelod Cabinet Tai, Diwylliant & Hamdden |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Tai, Diwylliant a Hamdden |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Diwylliant a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Economi a Chymuned ac Oedolion, Llesiant a Thai, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3. Ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf, rwyf wedi treulio amser gyda'r Adran Economi a'r Gwasanaeth Tai yn edrych ar eu gwasanaethau a cheisio deall sut mae'r mesurau sy'n cael eu hadrodd i mi yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith dydd i ddydd y Cyngor.

1.4. Mae gwasanaeth Ieuenctid a'r gwasanaeth Hamdden yn mynd trwy gyfnod o newid ac ail-fodelu, ac rwyf wedi amlygu rhai o'r risgiau sy'n codi yn fy adroddiad. Yn ogystal, mae'r maes Tai yn wynebu sawl her gyda phwysau cynyddol ar yr unedau cefnogi pobl a'r uned ddigartrefedd a'r newid yn y drefn budd daliadau. Yn gyffredinol, rwy'n hapus gyda pherfformiad. Fy mlaenoriaeth yn ystod y misoedd nesaf yw sicrhau cynllun tymor byr ar gyfer sut ydym yn ymateb i helpu teuluoedd a thrigolion i ymdopi gyda dyfodiad y Credyd Cynhwysol a newid yn y drefn budd daliadau.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. E3 Cydymdrechu yn erbyn tlodi

4.1.1 ***Pwrpas y prosiect yma fydd gweithredu rhaglen o gynlluniau i leihau'r effaith tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Erbyn diwedd y prosiect, bydd unigolion yn cael mynediad at y cyngor a'r cymorth sydd ei angen er mwyn ymateb i heriau eu hamgylchiadau unigol.***

4.1.2 Fel rwyf eisoes wedi ei nodi, rwyf yn awyddus i roi blaenoriaeth i'r gwaith yma a sicrhau bod y Cyngor, ar y cyd gyda phartneriaid allanol, yn gweithio gyda'n gilydd wrth i'r Sir symud drosodd i'r Credyd Cynhwysol. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn mynd i effeithio 6,800 o bobl, gyda'r gwasanaeth yn rholio allan i ganolfannau gwaith ar hyd Gwynedd (ac eithrio Caernarfon) ym mis Gorffennaf, a'r gwasanaeth yn rholio allan i Gaernarfon ym mis Tachwedd 2018. I ymateb i hyn, rydym yn hyfforddi staff rheng flaen y Cyngor i ddeall beth yw'r goblygiadau *i'n trigolion.*

4.1.3 Cynhalies gyfarfod diweddar gyda phob Pennaeth i drafod yr agenda tlodi a sut a pha rôl sydd gan bob Adran yn y Cyngor i'w chwarae wrth i ni fynd i'r afael ag effeithiau tlodi. Mae'n deg dweud bod ein hymateb i'r agenda wedi bod yn ddarniog, ond gyda chefnogaeth Penaethiaid pob Adran, rwyf yn awyddus i newid hynny a sicrhau cyd-gysylltu ar draws y Cyngor. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw bod angen sicrhau bod sylw penodol yn cael ei roi i'r Blynyddoedd Cynnar a'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd. Yn ogystal, nodwyd bod gan yr Adran Addysg rôl greiddiol i'w chwarae yn codi ymwybyddiaeth penaethiaid ysgolion a'r staff dysgu o'r newidiadau gyda'r Credyd Cynhwysol. Mae'n hanfodol bod y staff yma yn ymwybodol o sut gall y newidiadau yma mewn budd-daliadau gael effaith ar y plentyn sy'n dod i'r ysgol. Mae yna waith pellach i'w wneud hefyd i godi ymwybyddiaeth Llywodraethwyr ac aelodau lleol o'r newidiadau yma.

4.1.4 Erbyn cychwyn y flwyddyn, rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn glir o'r cyfeiriad gyda'r agenda Tlodi yn y Cyngor, a bod y Penaethiaid a'n staff yn ymwybodol o'r rôl flaenllaw sydd ganddynt i'w chwarae.

### 4.2. E4 Strategaeth Cyflenwad Tai

4.2.1 ***Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.***

4.2.2 **Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig**

Mae'r gwaith o gyflwyno tri chais cynllunio yn mynd yn ei flaen ac mae ymgynghoriad lleol wedi ei gwblhau yn ardal Penygroes a Bethesda er mwyn trafod cynlluniau posibl. Bydd ceisiadau cynllunio am dai rhent a thai fforddiadwy i'w prynu yn y tair ardal yn cael eu cyflwyno yn ystod Ionawr i Fawrth 2018 yn ddibynnol ar ddadansoddiad o anghenion tai o fewn yr ardaloedd penodol yma. Pe byddai'r tri chais cynllunio yn llwyddiannus, byddai hyd at 39 o gartrefi yn cael eu darparu ar draws Gwynedd.

4.2.3 **Tai gwag yn ôl i ddefnydd**

Mae gwaith o ddod a Thai gwag yn ôl i ddefnydd yn parhau ac o fewn y targed sydd wedi ei osod. Mae trafodaethau yn digwydd o ran ceisio ymestyn ymhellach na'r targed. Mewn cyfarfod diweddar gyda'r Adran roedd awydd i symud ymlaen gyda hyn ac ymdeimlad ein bod yn colli cyfle. Mae'r adnoddau sydd wedi neilltuo yn cyfyngu ymestyn ymhellach a pe byddwn eisiau ymestyn yr uchelgais byddai rhaid ystyried buddsoddiad ychwanegol. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Horizon i geisio adnabod buddsoddiad posibl i ymateb i alwadau ychwanegol ac mae yn bosibl y bydd angen ystyried a ellid dynodi arian o'r premiwm ail gartrefi a thai gwag i dargedu rhagor o eiddo. Mae'r Adran hefyd yn bwriadu cyd-blethu gyda chais ariannol Cynllun Tri yn ardal Bangor.

4.2.4 **Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref**

Mae Gwasanaeth Digartref yn edrych ar opsiynau o ddefnyddio eiddo gwag er mwyn cael model tai a chefnogaeth yn yr ardal. Mae ymdrech hefyd wedi bod i glymu buddsoddiad tai gwag i gynlluniau sydd yn cynyddu cyflenwad tai ar gyfer dibenion y gwasanaeth digartref. Mae trafodaeth yn parhau o ran cael adnodd o fewn y cynllun asedau ar gyfer canfod llety newydd yn Nolgellau.

4.2.5 **Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth**

Mae'r angen i gyfarch yr her demograffeg wedi ei drafod yn ddiweddar yn y Symposiwm Tai a chydnabyddiaeth bod hwn yn faes sydd angen ei flaenoriaethu. Mae gwaith wedi dangos bod tai addas yn gallu arbed costau ond bod tai anaddas yn creu costau ychwanegol i ofal ac iechyd. Rydym wedi adnabod bod angen trafod datrysiadau ac yn edrych ar ardaloedd llesiant i geisio adnabod atebion perthnasol ar lefel lleol gan ei bod yn bosibl bod gofynion yn gwahaniaethu o ardal i ardal. Mae dadansoddiad cynhwysfawr yn cael ei gwblhau er mwyn ystyried galwadau a chyflenwad presennol o fewn y gwahanol ardaloedd er mwyn cadarnhau beth sydd angen ei flaenoriaethu. Rydym wedi gofyn bod arian yn cael ei ddynodi o fewn y cynllun asedau er mwyn cael 2 ddarpariaeth benodol ar gyfer pobl hyn ac yn ystyried posibiliadau o ran defnyddio ffynonellau grant allanol ar gyfer cefnogi mentrau mewn partneriaeth.

**5. MESUR PERFFORMIAD**

5.1. Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio yn Adran Economi a Chymuned. Fel rwyf eisoes wedi ei nodi, rwyf wedi treulio amser gyda staff yr Adran Economi a Chymuned yn ystyried mesurau ystyrlon. Rwyf yn awyddus i'r holl wasanaethau geisio adrodd ar fesurau mewn modd gweledol i'r dyfodol.

5.2. O ran Adran Economi a Chymuned, mae fy mhortffolio yn cynnwys Gwasanaeth Hamdden, Ieuenctid, Adfywio Cymunedol, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

5.3. Mae nifer o'r gwasanaethau yma wedi, neu yn mynd trwy gyfnodau o newid ac ail-fodelu. Rwyf am fynd trwy'r mesurau fesul gwasanaeth.

5.4. Mae'r **Gwasanaeth Hamdden** yn darparu rhaglenni Byw yn Iach a Chwaraeon sy'n darparu ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol a chyfleusterau Canolfannau Byw yn Iach yn y Sir. Mae'r gwasanaeth wedi addasu a mireinio eu mesurau ers mis Ebrill er mwyn dal y wybodaeth sydd bwysicaf i bobl Gwynedd ac egluro'n glir beth yw cyfeiriad y gwaith. Credaf fod gwaith pellach i wneud ar rhai o'r mesurau ac mae hynny yn rhan o'r drafodaeth rwyf wedi ei gychwyn gyda'r gwasanaeth.

5.5. Rwyf yn fodlon gyda pherfformiad y gwasanaeth, gyda chynnydd derbyniol wedi'i wneud ers mis Ebrill 2017. Mae'r ***% y plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon nofio'r Cwricwlwm Cenedlaethol*** wedi bod yn codi yn flynyddol, a hynny oherwydd bod y gwasanaeth wedi bod yn gwneud gwaith targedig gyda'r ysgolion hynny lle nad oedd plant yn cyrraedd y lefel. Mae Cynllun Datblygu Nofio wrthi'n cael ei ddatblygu, sy'n golygu bydd yna bwyslais ar ddatblygu nofio ymhellach yn y Sir, gan gynnwys Llwybr Nofio Anableddau. Un peth rwy'n awyddus i'r gwasanaeth ystyried wrth i ni ddatblygu'r cynllun hwn yw cael adborth gan y plant a'r rhieni ar y gwersi nofio, gan gall hynny fod o gymorth wrth siapio'r gwasanaeth a gynigir.

5.6. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weithredu rhaglenni Cyfeirio at Ymarfer a Dementia Go. Mae'r Adran wedi llunio mesurau sy'n asesu'r sgôr ansawdd bywyd pobl sy'n cymryd rhan y rhaglenni yma. Mae'r ddau fesur yn dangos canlyniad cryf ers mis Ebrill o'i gymharu â llynedd. Mae gwaith ataliol da yn cael ei wneud gan ddau ddim yma, ond rwyf yn dal i deimlo bod angen gwaith pellach ar ddal effaith y gwaith yma yn gyfanrwydd. Rwyf eisiau gweld pa mor bell yw'r daith mae'r unigolion sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglenni yma. Teimlaf ei bod yn anodd dal holl effaith y gwaith yn y mesurau felly gofynnais am gael enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n dangos taith rhai o'r trigolion wrth iddynt gymryd rhan yn y rhaglenni. Byddaf yn rhannu copiau o'r astudiaethau achos hefo chi dros y misoedd nesaf.

5.7. Mae'r Canolfannau Byw yn Iach yn mynd trwy gyfnod o newid wrth i ni ystyried Model Amgen newydd. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith yma yn dynn. Mae gwaith hefyd wedi ei wneud ar gwblhau trefniadau hunanwasanaeth y canolfannau i alluogi'r cyhoedd i logi offer a sesiynau ffitrwydd ar lein, sydd yn gam positif ymlaen.

5.8. Ar y llaw arall, mae'r ffigwr Bodlonrwydd Cwsmer i lawr eleni i 87.7% o'i gymharu ar 89.36% flwyddyn ddiwethaf. Mae'r dull o ganfod barn y cwsmeriaid wedi newid eleni, gyda defnydd electronig o'r holiaduron. Wrth ddadansoddi'r ymateb, mae materion megis loceri a glanweithdra wedi eu codi, ac felly bydd y tîm yn ystyried y datrysiadau. Teimlaf fod gan y tîm waith pellach i'w wneud hefyd yn cysylltu gyda'r cwsmeriaid hynny sydd ddim yn parhau gyda'u haelodaeth gan fyddai'r wybodaeth yma yn ddefnyddiol yn enwedig os ydym am wella'r gwasanaeth a gynigir.

5.9. Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'r gwasanaeth wedi bod trwy gyfnod o newid ond wedi cyrraedd cyfnod eithaf sefydlog erbyn hyn, a rheolwr newydd wedi cychwyn ers mis Gorffennaf.

5.10. Mae perfformiad mesurau'r gwasanaeth yn eithaf sefydlog hyd yma. Roedd ffigwr ar gyfer **nifer yr ymweliadau a llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn** yn is ar gyfer 2016-17 (3,067) o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, ond mae rhesymau am hyn megis cwtogi oriau agor rhai llyfrgelloedd. Nid wyf yn poeni yn ormodol am hyn gan bod y ffigwr i weld ar gynnydd eleni, gyda'r nifer o ymweliadau yn 3,150 hyd at Hydref 2017.

5.11. Teimlaf fod gan y gwasanaeth waith pellach i'w wneud ar eu mesurau, a gyda rheolwr y gwasanaeth bellach wedi bod ar gwrs Ffordd Gwynedd, mae'n fwriad ganddi i ystyried mesurau eraill.

5.12. Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiel ac Amgueddfa Lloyd George. Yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi bod yn trafod gyda Chyfeillion Neuadd Buddug a chynllun datblygu'r ysgol newydd yn y Bala ynglŷn â'r elfennau cymunedol. Byddaf yn cadw llygaid ar hyn i'r dyfodol. Ers mis Ebrill, **mae 96% o gwsmeriaid wedi nodi eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth ar ddarperir**.

5.13. Pwrpas y **Gwasanaeth Ieuenctid** yw sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc (11-25 oed) sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth yn mynd trwy gyfnod o newid, ac wedi bod yn ymgysylltu ar fodel darparu newydd i'r Sir. Bydd adroddiad yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr, a byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi ym mis Mawrth 2018. Credaf fod gwaith pellach i'w wneud ar fesurau Ieuenctid yn ogystal, a byddai'n fuddiol cael barn pobl ifanc ar beth sy'n cael ei gynnig yn y clybiau. Ar nodyn positif, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau bod 309 **o bobl ifanc yn derbyn achrediadau trwy'r gwasanaeth** ers mis Gorffennaf 2017.

5.14. Yn y run modd a'r gwaith sydd wedi digwydd yn yr Adran Economi, rwyf wedi gofyn i'r **Adran Tai** i adolygu pwrpasau eu Hunedau a'u mesurau er mwyn sicrhau eu bod yn mesur y pethau cywir ac yn dangos lle'r ydym yn gwneud gwahaniaeth i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddaf yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tai dros y misoedd nesaf i ddatblygu hyn ymhellach. Yn ogystal i'r Cyfarfod Herio Perfformiad rwyf wedi ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Tai wedi cynnal gweithdy i edrych ar sefydlu blaenoriaethau i'r maes. Gweler ***Atodiad 2*** am gopi fesurau'r Gwasanaeth.

5.15. Law yn llaw a'r gwaith yma, rydym angen deall y galw am dai o fewn ein hardaloedd er mwyn blaenoriaethu'r cyflenwad tai sydd ei angen o fewn ein hardaloedd. Mae'r Adran yn gweithio ar hyn o bryd ar fapio'r galw am dai o fewn ein hardaloedd llesiant. Bydd y gwaith yma yn arwain at ein hymateb i'r angen i wella ein cyflenwad Tai.

5.16. **Uned Ddigartrefedd** - Gwelir peth ddirywiad yn yr amser mae'n cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig (TAI 002) (103 diwrnod chwarter 1 o gymharu â 69 cyfartaledd 2015/16 a 54 2016/17). Mae'r cyfnod a dreulir mewn llety dros dro (TAI003) (80 diwrnod) hefyd yn dangos peth dirywiad wrth gymharu â 2015/16 ond yn cymharu yn dda gyda blwyddyn ddiwethaf a gydag awdurdodau eraill sydd hefyd yn adrodd bod pwysau tebyg. Mae Cyfrifiad Digartrefedd diweddar yn nodi fod 33 o bobl a all fod yn cysgu allan yng Ngwynedd ar hyn o bryd sydd yn gynnydd ar flwyddyn ddiwethaf.

5.17. Adroddwyd sawl rheswm am y dirywiad mewn perfformiad megis y ffaith fod rhai unigolion, sy'n anodd ei lletya am amryw resymau megis Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, yn parhau mewn llety dros dro am gyfnodau hir. Adroddwyd bod 17 person sengl mewn gwely a brecwast ar hyn o bryd oherwydd anhawster canfod llety un llofft fforddiadwy ar eu cyfer. Adroddwyd bod 2 person wedi bod mewn llety gwely a brecwast ar gost i'r Cyngor yn agos i flwyddyn. Gwelwn hefyd bod anhawster canfod llety addas oherwydd rhai unigolion yn dangos ymddygiad gwrth cymdeithasol ac y rhai sydd yn gadael carchar. Yn fy marn i, mae angen datrysiadau gwell ar gyfer yr unigolion yma, er nad wyf yn meddwl mai cyfrifoldeb i'r Cyngor yn unig yw hwn. Byddaf yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r Adran ac ein partneriaid i edrych ar hyn ymhellach.

5.18. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ystadegau ar ddigartrefedd diwedd Gorffennaf 2017, mae'r ffigyrau yma yn rhoi trosolwg o'r darlun Cenedlaethol digartrefedd dros y ddwy flynedd diwethaf ers i'r newid yn y Ddeddf Tai ar newid pwyslais i weithio'n fwy ataliol. Mae'r ffigyrau yn cadarnhau'r darlun lleol rydym yn ei weld yng Ngwynedd sef y cynnydd mewn digartrefedd a'r tuedd bod hwn am barhau. Mae nifer cyfeiriadau i'r uned wedi cynyddu yn sylweddol - 560 yn 2014/15, 648 yn 2015/16 a 722 yn 2016/17 sydd eto yn adlewyrchu'r tuedd Cenedlaethol.

5.19. Mae'r darlun yn un tebyg gyda'r Uned Cefnogi Pobol gyda phwysau cynyddol yn ymwneud gyda'r cynnydd mewn cyfeiriadau a'r cynnydd yn natur cymhleth cyfeiriadau. Mae'r newidiadau budd-daliadau yn rhoi pwysau ar ein defnyddwyr gwasanaeth ac mae ein defnyddwyr angen fwy o gefnogaeth o ran rheoli arian.

5.20. Mae Perfformiad yr **Uned Cefnogi Pobl** ar gyfer y cyfnod Ionawr i Fehefin i'w gweld yn ***Atodiad 1*** sydd yn dangos perfformiad da. Fel rwyf eisoes wedi nodi, rwyf am weithio gyda'r Uned i sicrhau ein bod yn mesur y pethau cywir. Rwyf am i'r Uned ail ymweld â phwrpas yr uned a datblygu mesurau sydd yn dangos i ni ein bod yn gwneud gwahaniaeth a ble dylwn flaenoriaethu ein hadnoddau.

5.21. Yn ogystal, mae cais wedi ei wneud i'r Uned Grantiau a Gorfodaeth i ail edrych ar eu mesurau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur y pethau cywir. Mae'r mesur **nifer o ddiwrnodau a gymerwyd i roi grant Cyfleusterau Anabl (PSR002)** yn perfformio'n llawer iawn gwell yn ystod Chwarter 2. Credaf fod angen rhannu'r mesur yma i achosion cymhleth a rhai mwy syml er mwyn sicrhau darlun clir o beth sydd yn cael ei gyflawni.

5.22. Rwy'n falch o adrodd fod perfformiad o ran y mesur **'Strat6' Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd** yn perfformio yn foddhaol. Mae'r Adran yn rhagweld y byddwn yn cyfarch ein targed o 50 uned fforddiadwy yn y flwyddyn 2017/18.

**6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1. Mae'r Adran Economi wedi gwireddu oll o'u cynlluniau ar gyfer 2017/18. Yn gyffredinol, mae'r Adran hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau 2018/19, sy'n cynnwys gweithredu ar benderfyniad y Cyngor Llawn ar 5 Hydref, 2017 i gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer sefydlu "Cwmni a Reolir gan Gyngor Gwynedd" i ymgymryd â darpariaeth cyfleusterau hamdden, yn weithredol yn ystod Chwarter 3 o 2018/19. Rhagwelir bydd hyn yn galluogi i'r Cyngor greu arbedion blynyddol sylweddol.

6.2. O ran y cynlluniau yn y maes Tai o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn gyffredinol, does dim pryder o ran y gallu i wireddu'r arbedion effeithlonrwydd na'r toriadau. Fodd bynnag, rhagwelir ychydig o lithriad mewn gwireddu'r cynllun "TAI4 - Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai" yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2017/18, yn unol â'r nod.

**7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1. Dim i'w nodi.

**8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**8.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Rwy'n fodlon fod cynnwys rhan 6 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r cynnydd gyda chynlluniau arbedion yn y gwasanaethau tai, diwylliant a hamdden. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa fod gwireddu arbedion yn parhau i fod yn hynod o heriol, a bydd swyddogion yr Adran Cyllid yn parhau i gefnogi a chynghori'r Aelod Cabinet a'r swyddogion perthnasol fel bo'r angen."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Mesurau Economi a Chymuned ar gyfer Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| **Atodiad 2** | Mesurau Gwasanaeth Tai |


**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.


# MESURAU'R AELOD CABINET TAI, DIWYLLIANT & HAMDDEN – ADRAN ECONOMI & CHYMUNED (hyd at ddiwedd Chwarter 2 2017/18, Medi 2017)

## Hamdden


### 1. % plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon nofio'r Cwricwlwm Cenedlaethol





### 2. % o bobl sy'n nodi bod eu ansawdd bywyd yn well ar ôl cwblhau 16 wythnos ar y rhaglen Cyfeirio i Ymarfer




**3. % o bobl sy'n nodi bod eu ansawdd bywyd wedi gwella ar ôl cwblhau 16 wythnos ar gynllun Dementia Go**





**4. % boddhad cwsmer Canolfannau Hamdden**



## Llyfrgelloedd




## Amgueddfeydd a'r Celfyddydau



# ATODIAD 2 - Mesurau Aelod Cabinet Tai, Hamdden & Diwylliant – Gwasanaeth Tai

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Tai** | | | | | |
| **TAI008** | Nifer o unigolion sydd wedi symud i lety cynaliadwy ar diwedd cefnogaeth | - | - | 90 | 41 (18.64%) |
| **TAI009** | Nifer o unigolion lle mae'r anghenion cefnogaeth sydd yn ymwneud gyda thai wedi ei chyrraedd | - | - | 233 | 65 (29.54%) |
| **TAI015** | Nifer o unigolion lle mae'r anghenion iechyd wedi sefydlogi | - | - | 4 | 1 (0.45%) |
| **TAI002** | Cyfnod a gymryd i gyflawni yr hyn sy'n bwysig. | 85 | 70 | 54 | 103 |
| **TAI003** | Cyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro | 76 | 70 | 104 | 88 |
| **PSR/002** | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 318 | 271 | 311 | 196 |
| **Strat 6'** | 'Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 144 | 48 | 71 | - |

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 16 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Datblygu'r Economi |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Economi, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu.

1.3. Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o brosiectau gyda phob un ar y trywydd cywir. Mae gan yr Adran waith pellach i'w wneud ar ddatblygu mesurau, a byddaf yn manylu ar hynny yn rhan 5 o'r adroddiad.

**2. PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

**4.1. E2 Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd**

4.1.1. ***Pwrpas y prosiect yma yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd.***

4.1.2 Mae'r rhaglen waith un i un gyda darpar fuddsoddwyr yn parhau, gyda chanmoliaeth gan y busnesau hynny sy'n derbyn y gefnogaeth. Mae 14 o fuddsoddwyr wedi derbyn cymorth ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, ac o ganlyniad mae 10 swydd gwerth uchel wedi'u creu yn y Sir a 92 o swyddi gwerth uchel (cyflog dros £26k) wedi'u diogelu.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

4.1.3 Gofynnais i'r Adran i fynd o dan groen y ffigyrau swyddi sydd wedi'u creu/diogelu gan fyd mod yn awyddus i weld ym mha ardaloedd a sectorau gwelir y swyddi hyn. Mae'r dadansoddiad yma yn dangos bod y swyddi sydd wedi eu creu/diogelu yn ardal Arfon. Mae 75% o'r swyddi wedi eu creu yn y sector digidol a 25% yn y sector bwyd. Ymddengys mai'r prif reswm am hyn yw oherwydd bod y sectorau gwerth uchel yn fwy aeddfed yn Arfon.

4.1.4 Mae ymdrech lawn yn cael ei roi i ddatblygiadau yn ardal Meirionnydd, yn enwedig safleoedd Trawsfynydd a Chanolfan Awyrofod Llanbedr. Mae'r datblygiadau yma yn parhau i fod yn anaeddfed o ran creu swyddi, ond mae'n rhaid parhau i osod sylfeini i alluogi datblygiadau sylweddol sy'n debygol o greu cannoedd y swyddi yn yr ardal.

4.1.5 Beth sydd wedi dod i'r amlwg yw bod nifer llai o ymholiadau ynglŷn â sefydlu a thyfu busnesau gwerth uchel yn ardal Dwyfor, a llai o safleoedd strategol ar gyfer lleoli busnesau gwerth uchel. Wrth gydnabod bod y sefyllfa yn ardal honno yn anodd a heriol, rwyf wedi gofyn i'r Adran ail-ymweld a'r Strategaeth Cyflogaeth Llyn a Meirionnydd a gweld os gellir canolbwyntio ar rywbeth penodol yn yr ardaloedd hynny.

**4.2. E5 Gwynedd Digidol**

4.2.1 ***Pwrpas y prosiect yw cefnogi ymdrechion i drawsnewid defnydd busnesau, gwasanaethau a thrigolion Gwynedd o dechnoleg drwy sicrhau bod darpariaeth o fand eang cyfoes ar draws y sir.***

**Isadeiledd**

Mae'r prosiect yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru/BT i gyflawni prosiect Cyflymu Cymru yn y Sir. Mae peth oedi yng nghynllun newydd sydd ar y gweill gan y Llywodraeth ond wedi cael cadarnhad diweddar bydd Cyflymu Cymru 2 yn cychwyn yn 2018. Erbyn hyn mae **86% o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn bandeang cyflym yn y Sir**, gyda'r nifer sy'n tanysgrifio yn 43%, sef yr uchaf yng Nghymru. Er bod y ffigyrau yma yn galonogol, rwyf yn awyddus i ni godi'r nifer o fusnesau sy'n tanysgrifio a hynny trwy godi ymwybyddiaeth.

O ran isadeiledd ffonau, gwelir llif cyson o geisiadau cynllunio ar gyfer gosod offer 4G yn y Sir. Er hyn, rwy'n ymwybodol bod cwmnïau ym Mharc Menai, Bangor yn cael trafferthion mawr gan nad ydynt yn derbyn 3G. Rwyf yn awyddus i'r prosiect ddylanwadu a rhoi pwysau ar gwmnïau ffonau symudol i wella'r ddarpariaeth yn y Parc.

**Busnesau**

Hyd yma mae 125 o fusnesau Gwynedd wedi elwa o raglen Cyflymu Cymru. Rwyf yn awyddus i'r Adran ystyried os oes yna dystiolaeth bod defnydd busnesau o dechnoleg ar gynnydd yn y Sir o ganlyniad i'r ymyrraeth yma.

**4.3. E6 Cynllun Arloesi Gwynedd Wledig**

4.3.1 ***Pwrpas y prosiect yma yw creu'r amodau i gryfhau sail economi wledig Gwynedd gan annog mentrau lleol i sefydlu a datblygu er mwyn cynnal cyflogaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Arloesi Gwynedd Wledig - LEADER Rhaglen Datblygu Wledig.***

4.3.2 Mae nifer o ddatblygiadau arloesol cyffrous bychain wedi derbyn cymeradwyaeth ers i mi adrodd i chi tro diwethaf. Mae cynllun i dreialu model o gefnogi mamau yng nghefn gwlad i ddatblygu eu sgiliau Technoleg Gwynedd gyda'r elusen Techmums a Choleg Meirion-Dwyfor wedi cychwyn, ac mae cais am adnoddau i ymestyn model wi-fi cymunedol a ddatblygwyd yn Aberdaron wedi ei gyflwyno. Teimlaf fod y sgôp i dreialu syniadau o dan y gronfa yn rhoi cyfle da i'n cymunedau gwledig i ystyried ffordd wahanol o weithio.

4.3.3 Gellir cael copi o newyddlen ddiweddaraf Arloesi Gwynedd Wledig ar y linc yma <https://issuu.com/mentermon/docs/newsletter03_-_cymraeg>. Mae'r newyddlen yma yn dangos yr amrediad eang o'r mathau o dreialon sy'n cael eu cynnal.

4.3.4 Teimlaf fod gwaith pellach i'w wneud yn ceisio dal ac ystyried effaith y treialon yma yn y tymor hir, gan fy mod yn awyddus i ni sicrhau dyfodol i'r cynlluniau yma tu hwnt i'r cyfnod treial.

**4.4. E7 Safle Treftadaeth y Byd**

4.4.1 ***Pwrpas y prosiect hwn fydd creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth Byd presennol Cestyll Edward 1 yn Harlech a Chaernarfon yn ogystal â chyflwyno statws Safle Treftadaeth y Byd i dreftadaeth y diwydiant llechi.***

**Caernarfon**

Mae gwaith wedi cychwyn ar weithredu rhaglen o welliannau werth £15m i ddatblygu glannau Caernarfon, gyda gwaith ar y safle yn amlwg yn y Galeri a Gorsaf Trên Eryri. Mae'r gwariant y Cynllun Cyfalaf yma yn cyd-fynd gyda'r amserlen gwario. Wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo, mae'r gwaith o adnabod cyfleoedd farchnata ar gyfer y datblygiadau wedi cychwyn.

**Harlech**

Mae'r gwaith o gefnogi partneriaid lleol i ymateb i'r anghenion a'r cyfleodd yn Harlech wedi cymryd cam ymlaen, gydag adroddiad ar Flaenoriaethu cyfleoedd Strategol yn yr ardal bellach wedi ei gwblhau.

O ran enwebiad ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd, derbyniwyd adborth cadarnhaol gan Adran Gelfyddydol Sant Steffan yn dilyn gwerthusiad technegol sydd wedi gosod cyfeiriad clir ac amserlen newydd i'r Cais. Anelir i gyflwyno'r enwebiad erbyn mis Medi 2018.

**4.5. T7 Digwyddiadau Proffil uchel a Strategol**

4.5.1 ***Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel Cenedlaethol neu Ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.***

4.5.2 Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio'n agos gyda sefydliadau a busnesau ac wedi adnabod dros 80 o ddigwyddiadau fydd yn cymryd lle yn y Sir y flwyddyn nesaf. Rydym wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad tair blynedd i ddigwyddiad Beicio Mynydd Red Bull Hardline, Dinas Mawddwy sydd wedi sicrhau ei ddyfodol yn y Sir.

4.5.3 Yn ogystal, mae gwaith pellach wedi ei wneud i gael buddsoddiad ychwanegol i ddigwyddiadau ym Mhlas Heli a Gŵyl Rhif 6. Un her sy'n wynebu'r prosiect yma yw'r disgwyliad gan Lywodraeth Cymru i'r Cyngor ariannu nifer o'r digwyddiadau mawrion yma.

4.5.4 Hyd at ddiwedd Medi 2017 adroddwyd fod budd o £2.5m wedi ei gynhyrchu (37% o ganlyniad 2016/17) ond o fod wedi herio deallaf fod nifer o'r prif ddigwyddiadau, gan gynnwys Gŵyl Rhif 6, eto i adrodd. Dylid nodi fod rwy'n hyderus bydd y ffigwr yma dros £6m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1. Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r mesurau wrth drafod y prosiectau uchod.

5.2. Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r Adran yn ystod y misoedd diwethaf ynglŷn â'r mesurau sy'n cael eu cyflwyno, mewn ymgais i sicrhau eu bod yn ystyrlon i drigolion Gwynedd. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda hwy am ail-ddiffinio eu mesurau er mwyn sicrhau eu bod yn dal y wybodaeth hynny sy'n mynd i fod o fudd iddynt siapio eu gwasanaethau i'r dyfodol. Rwyf hefyd wedi pwysleisio fy mod eisiau gweld y mesurau yn cael eu hadrodd yn weledol.

5.3. Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd byddai'r Adran yn gwneud gwaith pellach ar eu mesurau a'u cyflwyno yn eu Cynllun Busnes ar gyfer flwyddyn 2018/19. Wrth gydnabod bod gwaith pellach i'w wneud, rwyf yn gyfforddus bod yr Adran ar y trywydd cywir a byddaf yn parhau i weithio gyda hwy wrth iddynt ddarganfod mesurau newydd.

5.4. Yn y cyfamser, cytunais iddynt gyflwyno mesurau presennol yr Adran, ond ar ffurf weledol.

5.5. Mae'r Adran yn casglu mesurau maes (lle mae mwy nag un gwasanaeth yn bwydo i'r mesurydd) a mesurau fesul gwasanaethau.

### 5.6. Mesurau Maes

5.6.1 **Grant/Cydariannu wedi ei sicrhau i'r Sir** - Hyd at ddiwedd Medi 2017 mae saith cynllun wedi derbyn cynigion o arian eleni gan gynnwys Cei Llechi, Ad-Trac, dau gynllun yn targedu arian gan Croeso Cymru a chynllun sydd am dderbyn arian o'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

5.6.2 **Swyddi wedi eu creu gan fentrau sy'n derbyn cymorth yr Adran** - Gwelir bod 39 o swyddi wedi eu creu ers mis Ebrill 2017. Yn sgil cymorth yr Adran, mae distyllfa wedi'i sefydlu a swyddi newydd wedi dod o ganlyniad i hynny. Mae'r swyddi hyn hefyd yn cynnwys rhai sy'n deillio o gynllun adfywio Caernarfon. Mae'r gyfradd o swyddi gwerth uwch yn is na'r hyn a gyflawnwyd yn 2016/17 (46%), ac o ganlyniad rwyf wedi gofyn i roi sylw pellach i hyn yn ystod gweddill 2017/18.

5.6.3 **Swyddi wedi eu diogelu gan fentrau sy'n derbyn cymorth yr Adran** - Mae 105 o swyddi wedi eu diogelu yn y Sir. Mae rhan helaeth o 'r swyddi wedi eu gwarchod o ganlyniad i ddarparu cyngor i fusnesau lleol yn y maes digidol i ddarbwyllo eu perchnogion newydd i gynnal eu presenoldeb yn y Sir. Mae 92 o'r swyddi hyn yn swyddi gwerth uchel, fel y soniais o dan brosiect T1 - Swyddi Gwerth Uchel.

5.7. **Mesurau Gwasanaeth**

5.7.1 Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu, rheoli a hyrwyddo cronfeydd benthyciadau megis Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gaernarfon a Chronfa Ardal Bangor. Mae'r gyllideb ar gyfer Cronfa Caernarfon bellach wedi ei chlustnodi, gyda 6 adeilad gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd masnachol. Ar y llaw arall, mae'r sefyllfa yn un siomedig ym Mangor, gyda dim ond un cais llawn wedi ei dderbyn hyd yma. Teimlaf fod hyn yn adlewyrchu problem ddyfnach ym Mangor a bod angen gwirioneddol ystyried sut gellir mynd ati i adfywio canol y dref.

5.7.2 Mae'r mesurydd **'Ymholiadau busnes a weithredir arnynt'** wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, (494 yn 2014/15 i 94 yn 2017/18) a hynny yn bennaf oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol i helpu'r busnesau. Teimlaf felly fod gwaith pellach i'w wneud gan y gwasanaeth i ystyried eu mesurau ac rwyf eisiau iddynt ddal profiadau'r busnesau maent yn gweithio gyda hwy yn benodol, gan gall hynny roi gwybodaeth werthfawr i ni o ansawdd y cymorth. Mae gan y Cyngor rôl ehangach yn cefnogi busnesau. Rwyf yn awyddus i ni ystyried sut all y Cyngor ddarparu un pwynt cyswllt i fusnesau - byddai hynny yn darparu gwasanaeth a phrofiad llawer gwell i'r busnesau.

5.7.3 Mae'r **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yn ceisio sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, harbyrau, marinas ac ar draethau Gwynedd. Mae'r uned yn gyfrifol am reoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 7 o draethau baner las, 4 o harbyrau a 2 hafan gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 700 o gychod. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi bod yn mynd trwy ymarferiad Ffordd Gwynedd, felly bydd nifer o'r mesurau yn cael eu haddasu yn sgil yr adolygiad hwnnw. O ran prif welliannau sydd wedi'i gwblhau gan y gwasanaeth, mae'r gwaith o ddymchwel Pier Trefor bellach wedi'i gwblhau, a'r gwaith o baratoi strategaeth newydd ar gyfer ein Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd a fydd yn barod erbyn mis Ionawr, 2018.

5.7.4 Mae'r mesurydd **Angorfeydd Hafan Pwllheli yn llawn** yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig o ran cwrdd â'i dargedau incwm ac mae'n awgrymu boddhad defnyddwyr gyda'r Hafan. Hyd yn hyn, mae'r perfformiad eleni yn well na'r disgwyl, sy'n adlewyrchu ymdrechion y gwasanaeth i wella'r ddarpariaeth ac i gynnal mynediad i'r Hafan.

5.7.5 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd o ymwelwyr. Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r gwaith o greu gwefan twristiaeth Eryri Mynyddoedd ac Môr yn parhau, gyda'r bwriad o gynnwys manylion dros 2000 o fusnesau ar y wefan. Un o'r prif fesurau yw **nifer o ymwelwyr i wefan Eryri Mynyddoedd ac Môr.** Mae'r nifer yn ymweld â safle we Eryri Mynyddoedd a Mor wedi dirywio yn y flwyddyn hyd at ddiwedd Medi 2017. Mae'r dirywiad yma yn ategu'r angen i wireddu gwefan newydd - sef un o brif dasgau'r gwasanaeth ar gyfer 2017/18. Rwyf wedi herio'r gwasanaeth a derbyn sicrwydd y bydd y gwefan newydd cyfoes sydd yn gweithio o ddyfeisiadau symudol yn ei le cyn bod tymor ymwelwyr 2018 yn cychwyn.

**6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

6.1. Rwy'n falch o allu adrodd bod yr Adran wedi gwireddu'r oll o gynlluniau'r flwyddyn hon (2017/18) ar gyfer meysydd datblygu'r economi. Yn gyffredinol, mae'r Adran hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r cynlluniau sy'n weddill ar gyfer 2018/19 a 2019/20 yn ogystal.

**7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1. Dim i'w nodi.

**8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**8.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yr adroddiad. Mae cynnwys rhan 4.4.1 yn adlewyrchiad teg o wariant ar y cynllun cyfalaf, ac mae'n galonogol gweld yn rhan 6.1 o adroddiad yr Aelod Cabinet nid yn unig fod cynlluniau arbedion 2017/18 sy'n berthnasol i'r portffolio wedi'u gwireddu ond fod cynnydd derbyniol ar wireddu'r cynlluniau sydd eisoes wedi eu sefydlu ar gyfer y blynyddoedd nesaf."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**


**Atodiad 1** Mesurau Adran Economi & Chymuned (Datblygu'r Economi)

# MESURAU AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI

(hyd at ddiwedd Chwarter 2 2017/18, Medi 2017)


## Mesurau Maes

### 1. Grant / cydariannu wedi ei sicrhau i'r sir




Mae'r mesurydd yn dangos perfformiad yr Adran yn sicrhau adnoddau i wireddu dyheadau'r Cyngor i ddatblygu'r economi lleol.


### 2. Swyddi wedi eu creu gan fusnesau'n derbyn cymorth




Mae'r mesurydd yn dangos effaith gweithgareddau'r Adran yng nghynhyrchu swyddi newydd ac swyddi gwerth uwch yn arbennig.


Yn ystod Chwarter 2 darparwyd cymorth i gwmnïau o fewn y sector digidol ym Mharc Menai wedi iddynt gael eu prynu gan fusnesau rhyngwladol. Mae ymyrraeth y Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel wedi helpu i sicrhau diogelu bron i 100 o swyddi o werth uchel yn y sir.

**3. Canran o eiddo yn gallu derbyn bandeang cyflym a'r cyfradd yn tanysgrifiio**




Credaf fod sicrhau cysylltedd digidol o safon yn allweddol i gefnogi datblygu'r economi ac i gynnal ein cymunedau i'r dyfodol. Gweler gwybodaeth am y mesurydd yma yn **4.2 – Prosiect E5 Gwynedd Ddigidol.**

**4. Budd i'r economi o gefnogi digwyddiadau proffil uchel / strategol**





Mae'r mesurydd yn dangos budd economaidd buddsoddiad y Cyngor yng nghefnogi digwyddiadau.

Gŵyl Rhif Chwech wedi bod yn lwyddiant ac yn symud ymlaen i'r dyfodol yn dilyn problemau 2016/17 a'r Cyngor wedi ei gydnabod fel Cyngor cefnogol gan y trefnwyr yn nerbyniad yn ystod yr ŵyl. A Darlledwyd rhaglen awr ar Gwyl Rhif 6 ar sianel SKY ARTS am y tro cyntaf eleni gan hyrwyddo'r sir i gynulleidfa eang.

**Mesurau Gwasanaeth**

**5. Gofod diwydiannol / masnachol y Cyngor sy'n llawn**




Mae'r mesurydd yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Cefnogi Busnes o ran cwrdd â'i dargedau incwm. Credaf fod perfformiad y mesur hefyd yn cynnig awgrym o hyder y gymuned fusnes yn y sir.


Hyd yn hyn mae perfformiad 2017/18 yn well na'r disgwyl, yn bennaf o ganlyniad i lenwi gofod sydd wedi bod yn segur am gyfnod yng Nghanolfannau Menter y Cyngor.

Cronfa Benthyciadau Canol Dref Caernarfon


Mae 6 adeilad gwag yn dod yn nol i ddefnydd masnachol o ganlyniad o dderbyn cymorth Cronfa Benthyciadau Canol Dref Caernarfon. Bydd 14 swydd yn cael eu creu.

Rhys Davies, perchennog Byncws Tŷ Glyndwr: *"Rydym yn falch iawn o fod wedi gallu derbyn cefnogaeth. Mewn cyfnod lle bo arian cyhoeddus yn llawer mwy prin, mae argaeledd benthyciadau fel hyn yn gymorth garw i fusnesau bach lleol."*

### 6. Angorfeydd Hafan Pwllheli yn llawn



**7. Nifer yn angori'n flynyddol o fewn harbyrau**




Eto mae'r mesurydd yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig o ran cwrdd â'i dargedau incwm ac mae'n awgrymu boddhad defnyddwyr.

Mae'r mwyafrif o harbyrau yn sefydlog gyda Porthmadog wedi gwella yn dilyn cyfnod o ddirywiad yn y niferoedd.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Ionawr, 2018 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679 468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Adrannol.

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, o'm rhan y gwasanaethau sydd o dan fy nghyfrifoldeb i



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. **Prosiectau'r Cynllun Strategol**

4.1.1. Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2017-18.

4.2. **G1 Her Gofal - Ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.**

4.3 Adroddwyd y tro diwethaf ein bod wedi cynnal sesiynau gyda staff i drafod datblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yng Ngwynedd. Neges glir oedd pa mor allweddol a chyfoes yw sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n wynebu'r maes. Mae'r rhaglen waith sy'n cael ei ddatblygu yn rhoi ffocws ar sicrhau y gellid cynnig gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar lefel lleol gan nodi hefyd yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu dros y misoedd nesaf.

4.4 Yn benodol o ran ceisio cynyddu'r ffocws ataliol a lleol mae rôl y 'Cysylltwr Cymunedol' yn cael ei dreialu o fewn tri o'r Timau Cymunedol Integredig. Mae'r rôl yn cynnig cyfle i ystyried manteision plethu adnodd o'r trydydd sector o fewn ein timau ac yn ddatblygiad o hyn sydd ar waith yn barod yn ardal Eifionydd. Pwrpas rôl y Cysylltydd Cymunedol yw cyfoethogi dealltwriaeth aelodau o'r tîm ynglŷn â'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn cymunedau, gan sbarduno gweithgarwch cymunedol sy'n hybu llesiant trigolion. Mae'r rôl wrth reswm yn ddatblygol ei natur ac ar ddiwedd y cyfnod peilot bydd angen gwerthuso'r cynllun gan ddysgu, adlewyrchu a deall mwy am gyfraniad y rolau hyn i fod yn helpu pobl fyw eu bywydau fel maent yn dymuno.

**4.3 G2 Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion - Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.**

4.3 Adroddwyd y tro diwethaf fod cytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd i sefydlu strwythur i weithio'n integredig yn y maes pobl hyn a gallaf gadarnahu bod staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn y broses o drosglwyddo i mewn i'r strwythur newydd ardal. Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal i'r ac mae lleoliadau gwaith yn cael eu haddasu. Mae cyfres o weithdai wedi eu cynnal i gefnogi Arweinwyr y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i weithredu newidiadau a chynnal momentwm. Mae rhaglen waith yn ei lle i sefydlu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) o fewn y timau integredig sydd yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu trwy weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd Iechyd a Gofal yn Alltwen a barn staff

mewn sesiynau ymgynghori gafwyd yn ystod y gwanwyn.

**4.4 G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.**

**4.5** Ystyrir bod y cynllun hwn wedi ei gwblhau ar wahân i fan addasiadau a chwblhau trefniadau gweinyddol adnoddau dynol. Bydd yr Adran yn gweithredu newidiadau pellach i'r strwythur staffio os oes cyfleoedd datblygol yn codi neu gyfleoedd i weithio yn fwy effeithlon.

**4.5 G4 Tai Gofal Ychwanegol – Adeiladau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

4.5.1 Mae amserlen Cwmni Anwyl wedi llithro ymhellach oherwydd argaeledd a diffyg gweithwyr adeiladu, maent nawr yn edrych i gwblhau yn ystod mis Mai 2018. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y misoedd diwethaf gyda gwaith wedi cychwyn ar y to. Mae 58 o geisiadau wedi ei derbyn ar gyfer y cynllun sydd a 40 o fflatiau (1 a 2 llofft). Bydd ymgyrch marchnata yn cychwyn eto dechrau'r flwyddyn ar gyfer fflatiau arddangos a diwrnod agored.

**4.6 G5 Frondeg – Sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

4.6.1 Yn dilyn sylwadau ar y cynlluniau drafft gan y prif fudd-ddeiliaid, rydym nawr yn aros i dderbyn achos busnes cynhwysfawr gan Grŵp Cynefin. Maent hefyd eisiau cadarnhad gan y gwasanaeth eu bod yn barod i ymrwymo cyfraniad cyfalaf yn ogystal â'r tir ar gyfer y datblygiad newydd. Unwaith bydd y termau wedi eu cytuno, byddant mewn sefyllfa i gyflwyno cais cynllunio, gyda'r amod fod y prif-fuddeiliaid a'r cynghorwyr yn cael cyfle i weld y cynlluniau yn gyntaf cyn i'r ymgynghoriad cyhoeddus gymryd lle.

**4.7 G6 Darpariaeth fewnol – Penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaethau gofal) a gweithredu ar hynny.**

4.7.1 Ar trafodaethau gyda fy nghyd aelodau, mae penderfyniad wedi ei wneud i roi'r gwaith yma o'r neilltu am o leiaf 2 flynedd er ystyried opsiynau ehangach i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn marchnad sydd yn newid ac yn fregus.

**4.8 G7 Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – Ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hyn yn benodol.**

4.8.1 Mae gwaith adeiladu ar Ran 2 prosiect Llys Cadfan bellach wedi ei gwblhau ac mae trefniadau yn cael eu gwneud i symud tuag at gwblhau'r gwaith mewnol a gwneud defnydd o'r adnodd newydd fydd yr unigolion yn yr Uned Dementia Cynnar newydd. Mae'r risg y gallai methiant y Bwrdd Iechyd i recriwtio nyrsys yn yr ardal gael effaith ar bryd y bydd y cynllun yn cyrraedd ei lawn botensial o ran gwasanaethau gofal ac iechyd yn parhau. Mewn cydweithrediad gyda'r Bwrdd Iechyd, mae cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn gwelyau dementia cynnar yn cael eu datblygu ar gyfer 3 lleoliad arall ar draws y Sir a'r gobaith yw y gellir sicrhau buddsoddiad o gronfa ICF i weithredu o leiaf un o'r cynlluniau yma, a gobeithir dechrau ar y gwaith yn y lleoliad cyntaf, Plas Hafan, Nefyn fydd yn cyfateb i fuddsoddiad rhan 1 Llys Cadfan yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18.

4.8.2 Mae recriwtio i'r gweithlu gofal a nyrsio yn parhau yn hynod heriol. Mae ymdrechion i ddenu a chadw gweithwyr yn parhau ac yn cael eu dwysau. Yn anffodus nid ydym yn gweld digon o lwyddiant i lenwi'r bylchau hyd yma ac felly mae'r newid rhy araf i gynorthwyo yn y tymor byr. Gyda newidiadau deddfwriaethol eraill o ran cofrestru'r gweithlu yn dod i rym yn Ebrill 2018, rhagwelir y bydd cyflawni'r nod o ddenu a chadw'r gweithlu gofal ac iechyd yn parhau am gryn amser eto. Mae'r sector breifat hefyd yn wynebu trafferthion tebyg ac mae gwaith ar y gweill ar sefydlu cynlluniau peilot ar y cyd gyda darparwyr i arbrofi gyda dulliau newydd o weithio. Y nod yw cael un cynllun peilot ymhob un o'r 5 ardal dros y 18 mis nesaf. Y gobaith ydi y bydd hyn dros amser yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi ffocws ar amcanion yr unigolion ac sydd yn fwy effeithlon a fydd yn eu tro yn cyfrannu at ein gallu i leihau bylchau gofal/cyfnodau aros am wasanaeth/dychwelyd i'r cartref i drigolion bregus y Sir.

4.8.3 **Gofalwyr** - Mae gwaith i weld os yw ein trefniadau a'n sefyllfa gyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r Ddeddf yn parhau. Mae camau wedi eu cymryd i ymgorffori gwaith cefnogi'r gofalwyr yn yr agenda Llesiant/ataliol. Mae un o swyddogion yr Adran yn arwain a chydlynu gwaith yn rhanbarthol i gefnogi gofalwyr, a bydd hynny yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r sefyllfa a'r gallu i gryfhau'r ddarpariaeth leol ar sail gwybodaeth gadarn. Byddwn yn parhau i ofyn am farn swyddogion proffesiynol, gofalwyr yng Ngwynedd a phencampwyr y maes er mwyn ystyried os yw ein trefniadau yn addas. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i benderfynu os oes sail i gomisiynu prosiect neu brosiectau penodol i gefnogi gofalwyr di-dâl a/neu sut i wneud defnydd gwell o wasanaethau IAA ac ataliol. Mae Strategaeth Gofalwyr Gwynedd a Môn wedi cael ei mabwysiadu. Y cam nesaf fydd llunio'r cynllun gweithredu ac mae is-grwpiau yng Ngwynedd a Môn wedi dechrau cyfarfod i gyflawni hyn. Mae'r is-grŵp Gwynedd yn cynnwys aelodau'r Adran, partneriaid o 3ydd sector, Iechyd, a gofalwyr.

4.8.4 Mae'r Adran yn rhoi trefniadau newydd yn eu lle i gefnogi gofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl oherwydd adborth nad oedd y gwasanaeth yn effeithiol. Mae dau weithiwr cefnogol mewnol wedi cymryd y gwaith ac mae'r adborth cynnar am eu cefnogaeth i'r gofalwyr hyn yn gadarnhaol iawn. Rydym hefyd wedi cael adborth cadarnhaol iawn am ein cynllun cardiau argyfwng gofalwyr ac mae Cynnal Gofalwyr wedi dechrau hysbysebu'r cynllun hefyd.

## 5. Mesurau Perfformiad

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 Mae'r mesur **OED23** yn rhoi gorolwg cyffredinol ar y cyfeiriad mae'r adran yn mynd ac yn adnabod shifft bositif mewn cyflawni'r 'hyn sydd yn bwysig' i bobl hyn ac anableddau corfforol. Yn gyffredinol mae **OED 23, Canran o bobl hyn ag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig,** yn **90%.** Mae'r Adran yn cydnabod bod dal peth gwaith angen o ran datblygu mesur ymhellach, a hynny trwy barhau i hybu hyfforddiant 'Collaborative Conversations' a defnyddio sut yr ydym yn perfformio i adnabod bylchau a chyfloed ar draws y Sir. Mae'r Adran yn cadarnhau eu bod am weithio ymhellach ar y mesur yma.

5.3 Gyda'r mesur **OED24,** mae **93%** o **Gleientiaid Anabledd Dysgu wedi gweld gwelliant yn yr hyn sy'n bwysig** sydd yn gynnydd ar y chwarter diwethaf**.** O'r achosion hynny sydd ddim wedi gweld cynnydd yn yr hyn sydd yn bwysig iddynt,

mae'r Adran wedi adnabod yr achosion penodol yma ac mae'n werth nodi o'r achosion sydd wedi cael eu hadolygu, dim ond un achos sydd wedi gweld llithriad. Mae gwaith yn mynd rhagddo gan yr uned i adnabod y rhesymau tu ôl i unrhyw lithriad ac yr achosion yna lle nad oes cynnydd boddhaol i'w weld.

5.4 Mae pryder yn parhau gyda'r **Gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed (PMA/19).** Mae cryn dipyn o waith wedi digwydd o fewn yr adran i graffu yn fanwl y ffigyrau Oedi wrth drosglwyddo o ysbytai i sicrhau eu bod yn gywir. Mae'r ffrwyth gwaith yma i'w gweld gyda pherfformiad Mis Hydref yn gweld gwelliant, gydag un achos Oedi wrth drosglwyddo yn y mis (Hydref) sydd yn golygu perfformiad 3.2 hyd yma sydd yn dod a thafluniad am y flwyddyn i lawr. Rydym wedi adnabod pryderon ym methodoleg a diffiniad sydd yn cael ei ddefnyddio gan Iechyd wrth adrodd ar berfformiad Gwynedd ac felly byddwn yn parhau i adolygu hyn i sicrhau bod data cywir yn cael ei adrodd.

5.5 Mae peth pryder bod nifer fawr o unigolion methu cael eu rhyddhau o'r ysbyty oherwydd aros am leoliadau cartrefi nyrsio dwys, er i deuluoedd gytuno i ail a trydydd dewis. Rydym yn dechrau gweld sefyllfa lle mae anghenion preswylwyr cartrefi nyrsio yn llawer mwy dwys. Mae datblygiadau sydd yn digwydd yn Llys Cadfan a Phlas Hafan yn mynd i helpu ysgafnhau'r baich yn y tymor byr ond bydd angen trafodaethau pellach am unrhyw ddatrysiadau hir dymor.

5.6 Yn ogystal i'r gwaith yma, mi fydd y Cabinet yn ymwybodol o raglen waith 'week in a room' sydd yn ceisio ymateb i'r uchod. Mewn cydweithrediad gyda'r Bwrdd Iechyd rydym wedi adolygu'r system ofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio creu system sydd yn gweithio'n well i gleifion gan ddileu'r rhwystrau sydd yn codi i bobol. O ganlyniad i'r gwaith yma bydd ffordd newydd o weithio yn cael ei beilota yn Ysbyty Gwynedd ac edrychaf ymlaen yn fawr at ganlyniadau'r gwaith arloesol yma a byddaf yn eich diweddaru yn fuan.

5.7 Byddwch yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer pob oedran : 'Law yn Llaw ar gyfer Iechyd Meddwl Gogledd Cymru'. Mi fydd ystod o fesurau penodol yn cael eu darparu gan y bwrdd er mwyn gwella ansawdd, argaeledd a mynediad at wasanaethau Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru. Y bwriad yng Ngwynedd yw datblygu mesurau sydd yng nghyd fynd a'r strategaeth yma.

5.8 Mae sefydlu'r uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn galluogi'r Cyngor i ymateb yn llawer mwy effeithiol i ofynion newydd a chynyddol sydd o fewn y maes diogelu oedolion. Mae perfformiad **SCA/019 O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r peryg wedi'i reoli**, yn 100% chwarter yma.

5.9 Mae'n galonogol gweld ein bod yn parhau i weld cynnydd yn y mesur **PMA/20b Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi - ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach** sydd yn **88%.** Yn ogystal mae'r mesur **PMA/20a Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach** hefyd ar y trywydd cywir ac yn **90%.**

6. **Sefyllfa Ariannol/ Arbedion**

6.1 Gellir adrodd bod holl gynlluniau arbedion 2015/16 wedi eu gwireddu, a chanran cynlluniau 2016/17 sydd eto i'w gwireddu wedi gostwng i 6%, sef cyfanswm o £95,600. Mae amrediad o gynlluniau arbedion y flwyddyn 2017/18 wedi cael eu gwireddu ac er bod yr adran yn gweithredu ar y gweddill, mae amserlen gwireddu cyfanswm o £606,500 (43%) yn llithro ychydig. Er bod gostyngiad bach ers yr adroddiad diwethaf, mae her sylweddol i'w gwireddu yn amserol felly yn parhau. Mae hyn yn cyfrannu at y gorwariant a ragwelir am y flwyddyn

6.2 Cyfeiriwyd ers peth amser at drefniadau mwy cyfoes o ymateb i anghenion trigolion Gwynedd. Bellach, mae sail gadarn i ddod i gasgliad bod y drefn yma yn gynhyrchiol ac wedi arwain at leihad yn y galw am rai gwasanaethau, ac at arbedion pendant o fewn y maes gofal Pobl Hyn yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd adrodd i sicrwydd ar union faint yr arbedion o amryw o'r cynlluniau unigol fel ag y maent yn bodoli ar hyn o bryd.

6.3 Adroddwyd hefyd ers tro bod y Cabinet wedi cefnogi ymdrechion y Pennaeth i gyfarch y pryder sydd wedi bodoli parthed y tangyflawni a'r llithriadau gydag amryw o'r cynlluniau unigol. Ymhellach, bod y Pennaeth, wedi cyflwyno adroddiad ar y datblygiadau sy'n deillio yn rhannol o "Alltwen", a'i ddymuniad i ehangu ar y drefn yma o weithredu. Byddai hyn yn golygu cyfuno amryw o'r cynlluniau unigol o fewn gwahanol benawdau, ac yn cynnwys dull amgen o gofnodi budd ariannol y newidiadau. Cymeradwywyd egwyddor yr hyn oedd dan sylw. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros am adroddiad llawn gan y Pennaeth Adran on bellach gallaf gadarnhau bydd yr adroddiad yma yn cael ei gyflwyno yn fuan i'r Cabinet er ystyriaeth.

6.4 Mae'n fwriad hefyd cyflwyno amrediad o arbedion ychwanegol cyfwerth â £1.355m mewn amrywiol feysydd, arbedion sy'n rhannol ddisodli'r arbedion oedd wedi eu rhagweld o'r cynllun "Cwmni Hyd Fraich Darparu" sydd wedi ei hepgor am y tro.

6.5 Bu llithriad o ran cynnydd gyda'r cynllun Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm, ond rwyf innau (fel yr Aelod Cabinet cyfrifol) a'r Adran Oedolion (fel adran gomisiynu) yn annog y contractwr a'r gwasanaethau technegol perthnasol i gwblhau er mwyn cyflwyno'r ased a sicrhau'r deilliannau ar gyfer pobl Gwynedd cyn gynted â phosib.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

#### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Mae'r her sylweddol i wireddu cynlluniau arbedion yr Adran yn parhau, ond fel gwelir o'r adroddiad mae ymdrechion parhaus gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adnabod ffyrdd amgen o wireddu'r arbedion angenrheidiol. Disgwyliaf adroddiadau pellach i'r Cabinet mewn perthynas â hyn, yn unol â'r hyn a nodir.

Nodaf hefyd fod rhan 6.5 o'r adroddiad yn cyfeirio at lithriad gydag un o brif gynlluniau cyfalaf y Cyngor, sef 'Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm', ond fod yr Aelod Cabinet yn cymryd camau er mwyn isafu'r oedi pellach cyn cyflwyno'r ased a sicrhau'r deilliannau.

8.2. **Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Dim yn fater lleol.

8.3. **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **OED23** | Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd a Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | 88% | 89% |
| **SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. * | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 4.44 | 3.4 |
| **PMA 20a** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | 54% | 45% | 55% | | 90% |
| **SCA/002a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 46 (4.6%) | 45 (4.5%) | 43 (4.3%) | 42 (4.2%) | 43 (4.3%) |
| **SCA/002a** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 79 (7.9%) | 78 (7.8%) | 73 (7.3%) | 74 (7.4%) | 85 (8.5%) |
| **SCA/002b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. * | 26 (2.6%) | 24 (2.4%) | 23 (2.3%) | 22 (2.2%) | 22 (2.2%) |
| **SCA/002b** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. * | 20 (2.0%) | 18 (1.8%) | 17 (1.7%) | 16 (1.6%) | 16 (1.6%) |
| **SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli | 96% | 100% | 97% | 100% | 100% |
| **SCA/019** *LLEOL* | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99% | 100% | 96% |

* = Ffigwr is yn welliant

**Gofal - SCA/002a** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau mwy ataliol eu natur e.e. Teleofal a Galluogi. Mae'r mesur yn cynnwys yn unig y gwasanaethau traddodiadol e.e. Gofal Cartref. Er mwyn cael darlun llawn o'r bobl hynny sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref, mae fersiwn lleol o'r mesur wedi cael ei greu (**SCA/002a** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/002b** - Mae'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r 'hunan arianwyr' sydd yn byw yng Nghartrefi Preswyl y Sir. Mae gan Wynedd nifer o gartrefi mewnol o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cyfri 'hunan arianwyr' yn gallu drysu'r sefyllfa wrth gymharu'n genedlaethol. Mae fersiwn lleol wedi ei greu ar gyfer eithrio'r 'hunan arianwyr' (**SCA/002b** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/019** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn eithrio'r unigolion sydd wedi gwrthod ymyrraeth. Mae fersiwn lleol wedi ei greu sy'n eithrio'r unigolyn sydd wedi gwrthod ymyrraeth (**SCA/019** *LLEOL*) a thybir fod hyn yn rhoi gwell darlun o'r gwir sefyllfa.

Eitem 14

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **16 Ionawr 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:<br>Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18.

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Adroddir yma ar gynnydd gwireddu'r arbedion sydd yn Strategaeth Arbedion 2015/16 – 2017/18.

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor, roeddem wedi cynllunio £7,414,751 o arbedion yn y flwyddyn 2017/18. Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cadw trosolwg o'r darlun cyfan er mwyn adnabod unrhyw broblemau gyda'r drefn, neu unrhyw adran benodol.

Mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol i gyfarfodydd yr 2$^{ail}$, 9$^{ed}$ a'r 16$^{eg}$ o Ionawr eisoes yn manylu ar gynnydd gyda chynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel bo angen.

## 2. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2016/17 (a blaenorol)

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion roedd wedi ei osod iddynt am y flwyddyn 2016/17, ac yn rhoi diweddariad o ran y cynlluniau sydd eto i'w gwireddu. O'r 144 o gynlluniau, mae 142 wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol, a disgwylir i'r ychydig o gynlluniau sy'n weddill gael eu gwireddu'n llawn yn fuan. Yn nhermau ariannol (£), mae 99% o arbedion 2016/17 bellach wedi cael eu gwireddu. Mae'n braf hefyd nodi mai dim ond un cynllun o 2015/16 sydd heb ei wireddu, ac mae dull o'i wireddu yn fuan wedi ei adnabod.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2017/18

Yn yr un modd, mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolygon presennol o ran gwireddu cynlluniau ac arbedion 2017/18. O'r 122 o gynlluniau, mae 103 wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol, a 7 pellach ar drac i'w gwireddu yn amserol. Yn nhermau ariannol (£), mae 77% o'r arbedion ariannol eisoes wedi eu gwireddu, a 3% pellach ar drac i'w gwireddu.

Mae'r ffigyrau "llithro" yn cynnwys yr her sylweddol o wireddu nifer o gynlluniau yn yr Adran Oedolion a'r Adran Plant.

Yn f'adroddiad blaenorol i'r Cabinet 19 Medi, cyfeiriwyd at fwriad Pennaeth yr Adran Oedolion i gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei ddymuniad i gyfuno amryw o'r cynlluniau unigol o fewn gwahanol benawdau. Byddai hyn yn cynnwys dull amgen o gofnodi budd ariannol y newidiadau sy'n deillio o weithio mewn dull mwy effeithlon. Erbyn hyn, deallaf bwriedir cyflwyno'r adroddiad yma i'r Cabinet ar 13 Chwefror 2018 a pe bai'r cynnig yn derbyn cymeradwyaeth, rhagwelir y gellir ystyried yn fuan y bydd swm sylweddol o'r arbedion o fewn cynlluniau 2017/18 yn cael ei wireddu yn amserol.

Mae adroddiad yr Aelod Cabinet Plant, gyflwynwyd i'r Cabinet ar 9 Ionawr, yn cyfeirio at yr her o wireddu'r cynlluniau arbedion eleni ac, o bosib, gweddill arbedion y cynllun "Gwella Buddiannau trwy Drawsffurfio Gwasanaethau Plant" fel ag oedd wedi ei ragweld. Mae'n amlwg bod y sefyllfa o ran cyllido gofal plant yn faes sy'n creu pryder i sawl awdurdod lleol, a dwi'n annog yr Aelod Cabinet Plant i gyflwyno canlyniad yr adolygiad y cyfeirwyd ato yn ei adroddiad mor fuan ag y bo modd, er galluogi i'r Cabinet ystyried yr angen i'r Adran Plant gyflwyno cynllun amgen i wireddu'r arbedion ariannol perthnasol.

Mae un cynllun yn yr Adran Priffyrdd yn parhau i greu pryder, ac mae camau ar y gweill i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu er mwyn ystyried y sefyllfa, ac o bosib, cefnogi dull amgen o wireddu'r arbediad yn llawn.

## 4. CASGLIAD

Yn gyffredinol, rwy'n fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn ddiweddar i wireddu'r hyn oedd wedi llithro o'r cynlluniau hanesyddol. Ymhellach, mae'r rhagolygon o ran cynlluniau 2017/18 sy'n weddill hefyd ar y cyfan yn addawol iawn. Wrth gwrs, bydd angen i'r holl Aelodau Cabinet barhau i fonitro'r cynlluniau arbedion ac rwy'n ymwybodol bod y gwaith yma yn mynd rhagddo. Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2016/17 fesul adran
Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2017/18 fesul adran

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2016/17 FESUL ADRAN**



| Adran | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai hanesyddol (H) sydd i'w gwireddu<br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 94,089 (3) | 55,408 (2) | 38,681 (1) | - | Gwaith ar wireddu'r cynllun "Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau" wedi ei ehangu ac yn parhau. Er bod y system yn weithredol o ddechrau Ebrill 2017, rhagwelir gwireddu'r arbedion yn 2018/19. |
| Ysgolion | 2,095,000 (1) | 2,095,000 (1) | - | - | Arbedion 2016/17 y cynllun wedi eu gwireddu. |
| Amgylchedd | 656,480 (21) | 656,480 (21) | | | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 575,039 (16) | 575,039 (16) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 374,601 (17) | 374,601 (17) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 801,283 (17) | 801,283 (17) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,559,219 (30) | 1,463,619 (30*) | 95,600 (4*) | - | Gwelwyd cynnydd mewn gwireddu'r cynlluniau arbedion hanesyddol dros y misoedd diwethaf, a'r Adran wedi byw o fewn eu cyllideb refeniw yn 2016/17. Mae gwaith ar y gweill er gwireddu'r hyn sy'n weddill o'r 4 cynllun sy'n parhau yn rhannol ym mhorth 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl). |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai hanesyddol (H) sydd i'w gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | 753,000 (11) | 753,000 (11) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,934,100 (20)<br>(H) 40,000 (1) | 1,934,100 (20) | -<br>(H) 40,000 (1) | - | Holl gynlluniau 2016/17 wedi'u gwireddu, ond gwelir llithriad ar y cynllun hanesyddol "Rhesymoli Banciau Ailgylchu". Erbyn hyn, rhagwelir y bydd dull amgen o'i wireddu. |
| Ymgynghoriaeth | 146,000 (4) | 146,000 (4) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | - | | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2016/17. |
| Trawsadrannol | 212,600 (3) | 212,600 (3) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **9,201,411 (144)**<br>**(H) 40,000 (1)** | **9,067,130 (142*)** | **134,281 (5*)**<br>**(H) 40,000 (1)** | **-** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 99% o gynlluniau arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu, a llithriad (yn hytrach na methiant) rhagwelir efo'r gweddill.** |

(*Mae cyfran o'r cynlluniau mewn mwy nac un porth)

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2017/18 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar trac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 417,116 (5) | 358,816 (4) | - | 58,300 (1) | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu. Bu ychydig o lithriad efo gweithredu'r cynllun "Lleihau amser / a neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd". |
| Ysgolion | 990,000 (1) | 691,010 (1) | - | - | - | Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016, mae rhan ysgolion uwchradd o arbedion y cynllun hwn, sef £298,990, yn cael ei bontio gan y Cyngor am ddwy flynedd. |
| Amgylchedd | 962,483 (25) | 861,773 (21) | 75,710 (2) | 25,000 (2) | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu, ond mae angen gwneud ychydig o waith er symud y cynllun "Adolygiad Rhent Manddaliadau" ymlaen, ac mae oedi hyd 2018/19 cyn gweithredu ar y cynllun "Gwarchod y Cyhoedd - codi ffi am gynnig cyngor". |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 408,469 (11) | 408,469 (11) | - | - | | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 115,215 (9) | 115,215 (9) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 848,208 (20) | 848,208 (20) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,412,000 (29) | 728,760 (22) | 76,740 (2) | 606,500 (9*) | - | Mae her gwireddu sylweddol yn parhau, gydag amrediad a chanran uchel o'r cynlluniau yn parhau ym mhorth 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl).<br><br>O ganlyniad i weithredu mewn modd mwy effeithlon, mae'r Pennaeth wedi priodoli arbedion i'r amrywiol gynlluniau ac am gyflwyno cynllun i ystyried cyfuno amryw ohonynt ar sail themâu (bydd adroddiad i gyfarfod Cabinet 13 Chwefror). |
| Plant a Theuluoedd | 339,500 (4) | 25,000 (1) | - | 314,500 (3) | - | Mae her gwireddu sylweddol wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, gyda chanran uchel o'r cynlluniau a'r arbedion yn y maes "lleoliadau plant mewn gofal" yn awr ym mhorth 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl). |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,831,450 (13) | 1,587,450(9*) | 98,000 (3*) | 96,000 (1) | 50,000 (1) | Yn gwneud cynnydd derbyniol.<br><br>Mae gwaith i'w wneud eto er mwyn symud y cynllun "Canolfannau Ailgylchu" (£96,000) ymlaen, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.<br><br>Mae adroddiad hefyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu parthed y cynllun "Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol" (£50,000), ac o bosib bydd angen darganfod modd amgen o wireddu'r arbediad. |
| Ymgynghoriaeth | 105,000 (4) | 105,000 (4) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 7,000 (1) | 7,000 (1) | - | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **7,436,441 (122)** | **5,736,701 (103*)** | **250,450 (7*)** | **1,100,300 (16)** | **50,000 (1)** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 77% o gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu, a 3% gydag asesiad "gwyrdd" (porth 5.3).** |
| **Llai** | | | | | | |
| Trawsadrannol | -21,690 | -21,690 | | | | Addasiad gor-gyflawni. |
| **Is-gyfanswm** | **7,414,751** | **5,715,011** | **250,450** | **1,100,300** | **50,000** | |
| Ysgolion | -298,990 | | | | | Addasiad Pontio 2 flynedd |
| **CYFANSWM** | **7,115,761** | **5,715,011** | **250,450** | **1,100,300** | **50,000** | |

(*Mae cyfran o'r cynlluniau mewn mwy nac un porth)